Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

## Cefndir

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dangos y cynlluniau gwario ar gyfer 2026-27. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynigion yn y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 3 Tachwedd 2025.

Mae awdurdodau lleol yn bartner allweddol yn y gwaith o ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau mae pobl ledled Cymru yn dibynnu arnynt ac yn eu defnyddio bob dydd.  Mae'r buddsoddiad a wnaed yn y gyllideb ddrafft drwy'r setliad llywodraeth leol yn ategu'r gwasanaethau hyn.

Mae addysg yn wasanaeth hanfodol a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'r cyllid craidd a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol yn sail i ddarparu addysg drwy ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd. Mae hefyd yn cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) drwy ddarpariaeth prif ffrwd ac ysgolion arbennig, gan ddarparu cyfleoedd i bob plentyn ac unigolyn ifanc.

Mae gwasanaethau cymdeithasol, sydd hefyd yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol ledled Cymru, yn hanfodol i helpu pobl o bob oed i fyw bywydau diogel ac annibynnol yn eu cymunedau lleol. Mae gofal cymdeithasol yn cefnogi'r GIG, gan sicrhau y gellir gofalu am bobl yn ddiogel gartref a'u bod yn cael y cymorth cywir i wella o salwch neu anaf ar ôl i'w triniaeth yn yr ysbyty ddod i ben.

Gyda'i gilydd, mae addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cynrychioli dros 60% o wariant refeniw cyllidebol yn 2025-26. Ochr yn ochr â hyn, mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau chwaraeon, hamdden a diwylliant, ailgylchu a chasglu gwastraff a chynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd i enwi dim ond rhai. Gwyddom ei bod yn gydbwysedd gofalus ac anodd i awdurdodau lleol gynnal a datblygu'r gwasanaethau hyn mewn amgylchedd lle mae galw cynyddol a chyllid cyfyngedig. Rydym wedi rhoi cymaint o gyllid â phosibl yn amgylchedd y gyllideb bresennol, drwy bennu llinell sylfaen ar gyfer cyllid ychwanegol o 2025-26 a chynyddu'r setliad ar gyfer pwysau chwyddiant a chyflogau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ystyried pa hyblygrwydd arall y gallwn ei roi i awdurdodau lleol yn y broses o bennu eu cyllidebau cytbwys.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyllid i gynorthwyo'r gwaith o weithredu nifer o raglenni diwygio llywodraeth leol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi trawsnewid, gwelliannau a deddfwriaeth.

Mae’r dyraniadau Tai ac Adfywio yn y Gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ein hymgyrch barhaus i ddarparu mwy o gartrefi, yn enwedig drwy dai cymdeithasol, y gwyddom y gallant leihau tlodi, gwella iechyd corfforol a meddyliol, sbarduno twf economaidd ac, yn hollbwysig, rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Bydd buddsoddi yn y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn darparu mwy o gartrefi i gynorthwyo ein gwaith i roi diwedd ar ddigartrefedd a sicrhau bod gan bawb yng Nghymru le diogel a gweddus i'w alw'n gartref. Byddwn hefyd yn gweithio i gynyddu’r buddsoddiad mewn darparu mwy o gartrefi drwy ailgylchu cyllid benthyciadau.

Ochr yn ochr â gwaith i gynyddu nifer y cartrefi i'w rhentu yn y sector cymdeithasol, byddwn yn buddsoddi i gynorthwyo pobl i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain drwy amrywiaeth o gynlluniau, gan gynnwys Cymorth i Brynu Cymru a Chymorth Prynu.

Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi ar gyfer y tymor hir yn y gwaith o adfywio ein trefi a'n dinasoedd, gan ddod â chartrefi ac adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol a datblygu'r tir sydd ar gael i ni.

Mae buddsoddiad mewn cynnal a chadw, gwella a datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru yn cael ei gynnal. Er bod y buddsoddiad hwn yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar gartrefi cymdeithasol, rydym yn buddsoddi mewn Cartrefi Rhentu Preifat drwy Gynllun Prydlesu Cymru a byddwn yn ymestyn ein cynllun Cartrefi Gwyrdd drwy Fanc Datblygu Cymru y flwyddyn nesaf.

Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad o ffigurau perthnasol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Tai a Llywodraeth Leol yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).   Mae'r ffigurau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y tabl isod.

**Tabl 1: Trosolwg o'r newidiadau i'r tablau BEL**

| Crynodeb | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Cyllideb Ddrafft 2026-27 £000 | Newid £000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 5,558,587 | 5,690,029 | 131,442 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 1,191,280 | 1,215,106 | 23,826 |
| Dyraniad FTC* | - | 87,975 | 87,975 |
| Ad-daliadau FTC* | - | (5,467) | (5,467) |
| Cyfanswm DEL | 6,749,867 | 6,987,643 | 237,776 |
| | | | |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 1,114,803 | 1,213,884 | 99,081 |
| | | | |
| Cyfanswm y gyllideb | 7,864,670 | 8,201,527 | 336,857 |

* Mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC) yn cael ei dynnu o'r llinell sylfaen ddiwygiedig fel dyraniad un flwyddyn.

Mae’r cynnydd Refeniw yn 2.3% a'r cynnydd Cyfalaf Cyffredinol yn 2%.

# Cynnwys

**1. Dyraniadau yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ... 7**

0982 - Grantiau Tai Cymdeithasol ... 16

0984 - Grant Cyllid Tai ... 18

1181 - Cronfa Refeniw y Rhaglen Tai ... 19

6410 - Cronfa Rhyddhau Tir ... 19

0987 - Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill ... 20

0987 - Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill - Ad-daliadau ... 20

0980 - Cymorth Prynu ... 21

4151 - Adfywio ... 22

4162 - Awdurdod Harbwr Caerdydd ... 23

0840 - Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol ... 24

0875 - Rhyddhad Ardrethi Annomestig ... 26

0860 - Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu ... 26

0885 - Canlyniadau Refeniw Mentrau Cyllid Preifat Llywodraeth Leol ... 27

0887 - Trawsnewid a Deddfwriaeth ... 27

0940 – Costau Casglu Ardrethi Annomestig ... 28

1600 – Cymorth Ariannol Brys ... 28

1500 – Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio ... 29

1540 – Tribiwnlys Prisio Cymru ... 30

1550 – Diwygio Trethiant Lleol ... 30

1440 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru ... 31

1462 – Gwariant i Hyrwyddo Democratiaeth Leol ... 31

1463 – Polisi Etholiadau ... 32

1571 – Gwella a Chefnogi ... 32

1675 – Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol ... 33

7093 – Academi Wales ..... 34
1574 – Cynghorau Cymuned a Thref ..... 34
1265 - Gwasanaethau Tân ac Achub ..... 35
1697 - Y Gwasanaeth Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu ..... 36
**2. Newidiadau i ddyraniadau ers 2025/26 ..... 41**
**3. Aliniad ag Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ..... 42**
**4. Gwariant Ataliol mewn Dyraniadau Cyllideb ..... 43**
**5. Asesiadau Effaith Integredig Strategol ..... 48**
**6. Asesiad effaith Llywodraeth Cymru ac effaith cynnydd chwyddiant yn unig mewn gwariant adrannol ar gyllidebau llywodraeth leol ..... 50**
**7. Newid Hinsawdd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Datgarboneiddio ..... 53**
**8. Llywodraeth Leol a chydymffurfio â dyletswyddau statudol a/neu flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu; y Gymraeg, anghydraddoldebau a'r argyfwng hinsawdd a natur ..... 55**
**9. Gwariant Cyfalaf ar Dai ..... 56**
**10. Digartrefedd a'r Grant Cymorth Tai ..... 58**
**11. Blaenoriaethu adnoddau ar gyfer gweithredu Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) ..... 60**
**12. Diffyg yn y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ..... 62**
**13. Pwysau Costau Byw a Phrisiau Ynni ..... 64**
**14. Sipsiwn, Roma a Theithwyr ..... 65**
**15. Atodiad A ..... 66**

# 1. Dyraniadau yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

**1.** Bydd yr adran hon yn rhoi dadansoddiad o'r dyraniadau yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ac yn dangos sut mae'r rhain yn cyd-fynd ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

## Atal Digartrefedd

### 1. Cymorth ac Atal Digartrefedd

| BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1120 - Cymorth ac Atal Digartrefedd | 223,862 | - |

| **Diben y BEL** |
|---|
| Mae'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn ataliol ei natur. Mae methu ag atal digartrefedd yn arwain at oblygiadau ariannol uniongyrchol i awdurdodau lleol, gan gynnwys costau refeniw sy'n gysylltiedig â'r ffaith fod bron 11,000 o unigolion yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Mae digartrefedd hefyd yn tanseilio llesiant ac yn sbarduno costau ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys mwy o alw ar wasanaethau iechyd, iechyd meddwl a phlismona. Mae'n cael effaith negyddol ar ganlyniadau hirdymor - er enghraifft, mae plant sy'n ddigartref yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu potensial addysgol yn aml.<br><br>Mae'r BEL hon yn cyfrannu'n allweddol at ddiwygio gwasanaethau digartrefedd, gan ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym, sy'n flaenoriaeth yn y Rhaglen Lywodraethu.<br><br>Mae'r BEL hon yn cynorthwyo amrywiaeth o fesurau atal digartrefedd, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r Grant Cymorth Tai), y prif fecanwaith cyllido i alluogi awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae'n cynorthwyo unigolion sydd ag amrywiaeth o anghenion i fyw'n annibynnol a chynnal tenantiaethau, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill - yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol. Ar gyfer 2026-27, mae £4.704 miliwn |

ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r BEL hon a fydd yn cael ei ddefnyddio i roi hwb i brosiectau presennol sy'n cael eu cyllido o fewn y BEL.

Mae'r rhan fwyaf o gyllid y Grant Cymorth Tai yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau staffio. Mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol, gyda chyfran sylweddol yn cael eu darparu gan fudiadau trydydd sector. Bydd £4.1 miliwn o gyllid ychwanegol yn mynd at godiad cyflog i staff sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn, gan fynd â chyfanswm cyllideb y Grant Cymorth Tai i £208.4 miliwn yn 2026-27.

Bydd gweddill y cyllid ychwanegol yn y BEL yn 2026-27 yn cael ei ddefnyddio i ddarparu 2% o gynnydd chwyddiannol ar gyfer prosiectau atal digartrefedd eraill, gan gynnwys prosiectau Arloesi ymhlith Pobl Ifanc, y rhaglen Tai yn Gyntaf a gwasanaethau cynghori. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwaith o ddatblygu canllawiau a hyfforddiant newydd i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Bil Digartrefedd a Dyraniadau Tai Cymdeithasol (Cymru) newydd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer y Bil hefyd yn cydnabod y bydd angen gwneud gwaith paratoi ym mhob Awdurdod Lleol cyn ei roi ar waith. Bydd £2.3 miliwn arall yn cael ei ddefnyddio i helpu awdurdodau lleol i dalu costau cyn gweithredu, a fydd yn cael eu dyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw drwy fecanwaith grant penodol (gweler Adran 11a).

Bydd cyllid BEL hefyd yn parhau i gyllido Cynllun Lesio Cymru yn 2026-27 "i ddatblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref".

Mae'r cyllid refeniw hwn yn ategu'r cyllid cyfalaf a ddarperir i'r cynllun fel y nodir yn BEL 1182.

# Byw'n Annibynnol

## 2a. Polisi Tai

| BEL | Cyllideb Adnodd | Cyllideb Cyfalaf |
|---|---|---|

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| 1100 - Polisi Tai | 1,380 | - |

**Diben y BEL**

Mae'r BEL hon yn darparu cyllid ar gyfer amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau i ategu'r gwaith o weithredu deddfwriaeth newydd, ymchwil a gwerthuso blaenoriaethau polisi allweddol. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys ail gartrefi, diwygio cyfraith lesddaliad a gweithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi.

Mae'r BEL Polisi Tai yn becyn cyllid sydd wedi ei gynllunio'n benodol i gynorthwyo'r ymrwymiadau a ganlyn yn y Rhaglen Lywodraethu: "*Sicrhau bod landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb ac yn cynnig cymorth priodol*", "*Deddfu i weithredu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio lesddaliadau*" a "*Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod*."

Ar ben hynny, bydd y BEL hon yn parhau i gynorthwyo gweithgarwch yn y Cynllun peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd sy'n ategu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "*greu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*".

## 2b. Ymateb Cyflym i Fyw'n Annibynnol

| BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1285 - Ymateb Cyflym i Fyw'n Annibynnol | 6,358 | 25,500 |

**Diben y BEL**

Bydd y cyllid yn cynorthwyo amrywiaeth eang o weithgareddau gan Asiantaethau Gofal a Thrwsio a Chymdeithasau Tai drwy Grantiau Addasiadau Ffisegol a chan awdurdodau lleol drwy'r grant 'Galluogi'.

Mae addasiadau yn fuddsoddiad ataliol effeithiol i helpu pobl i fyw'n annibynnol a gwella iechyd a llesiant pobl hŷn, plant ac oedolion anabl. Maent yn helpu i leihau amseroedd rhyddhau o'r ysbyty a'r pwysau ar flocio gwelyau mewn ysbytai, yn ogystal â helpu i atal cwympiadau, lleihau dibyniaeth ar ofal, osgoi'r angen i symud i ofal preswyl a gwella cyfleoedd ac ansawdd bywyd a llesiant unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli nifer o gynlluniau grant i addasu cartrefi o dan y Rhaglen Addasiadau Brys, yn ogystal â rhoi cyfalaf heb ei neilltuo i awdurdodau lleol y gellir ei ddefnyddio i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl. Mae'r grant Galluogi yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu addasiadau bach a chanolig yn gyflym heb orfod defnyddio prawf modd. Drwy'r asiantaethau Gofal a Thrwsio, mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn targedu darpariaeth o addasiadau llai yn gyflym, yn bennaf er mwyn galluogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae'r Grant Addasiadau Ffisegol ar gyfer cymdeithasau tai traddodiadol yn galluogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i drefnu addasiadau addas bach, canolig a mwy i gartrefi eu tenantiaid ar yr un pryd â lleihau'r pwysau ar Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl awdurdodau lleol.

Mae 2% o gynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2026-27 i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a lefelau cyllid mewn termau real.

## 2c. Y Sector Rhentu Preifat

| BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1182 - Y Sector Rhentu Preifat | - | 3,570 |

**Diben y BEL**

Nod Cynllun Prydlesu Cymru yw prydlesu eiddo yn y Sector Rhentu Preifat i'w defnyddio gan awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn cysylltiad â digartrefedd. Mae'r Cynllun yn darparu manteision i awdurdodau lleol, tenantiaid (sydd â mynediad at lety tymor hirach a budd cymorth tenantiaeth yn debyg i fod yn denant cymdeithasol) a pherchnogion eiddo. Un o ganlyniadau arfaethedig y cynllun hefyd yw gwella safonau eiddo yn y Sector Rhentu Preifat.

Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu *"cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref"*. Mae hefyd yn cyfrannu at y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol.

Mae pob un o 22 Awdurdod Lleol Cymru wedi ymuno â'r cynllun erbyn hyn. Yn gyffredinol, y dyhead yw sicrhau 1% o'r stoc tai Rhent Preifat ar Gynllun Lesio Cymru erbyn diwedd Blwyddyn 5 (2027), a fyddai'n fwy na 2,000 o eiddo.

Mae 2% o gynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i'r gyllideb ar gyfer 2026-27 i gynorthwyo'r gwaith o barhau i ddarparu gwasanaethau

# Cartrefi a Lleoedd

## 3a. Cartrefi Clyd

| BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0950 - Cartrefi Clyd | 3,732 | 38,250 |
| **Diben y BEL** | | |

Y Rhaglen Cartrefi Clyd yw prif ymyriad Llywodraeth Cymru mewn ymdrechion i leihau tlodi tanwydd ers ei lansio yn 2009/2010. Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y cynllun statudol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ym mis Mawrth 2021, a lansiwyd fersiwn diweddaraf y cynllun Nyth : Cartrefi Clyd ym mis Ebrill 2024. Erbyn 2035, ein nod yw lleihau canran yr holl aelwydydd yng Nghymru sydd mewn tlodi tanwydd i ddim mwy na 5%, i lawr o amcangyfrif o 25% ym mis Hydref 2024, a sicrhau nad oes unrhyw aelwydydd mewn tlodi tanwydd difrifol (amcangyfrifir ei fod yn 5% ym mis Hydref 2024).

Nod y Rhaglen Cartrefi Clyd yw cyflawni hyn drwy asesu anghenion pob cartref yn annibynnol cyn argymell camau tymor byr, tymor canolig a thymor hirach i'w cymryd i ddatgarboneiddio'r cartref ac i leihau cost biliau i berchnogion cartrefi. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys inswleiddio waliau allanol neu geudod, gosod pympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli solar ffotofoltaidd, ac uwchraddio ffenestri a drysau ar gyfer 1500-2000 o gartrefi y flwyddyn.

Mae'r cyllid Cyfalaf ar gyfer y Rhaglen hon wedi cynyddu 2% yn 2026/27 o £37.5 miliwn i £38.25 miliwn.

Mae'r BEL hon yn cyfrannu at ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu: *"Parhau i wella cartrefi presennol, gan ein helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, creu swyddi mawr eu hangen, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi."*

## 3b. Iechyd a Thai

| BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0986 - Iechyd a Thai | - | 61,710 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r Gronfa Tai â Gofal yn cyllido prosiectau sy'n cynyddu'r stoc tai sy'n bodloni anghenion pobl sydd â gofynion gofal a chymorth, ac i ddarparu lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned er mwyn i bobl y mae angen gofal a chymorth adsefydlu arnynt allu mynd yn ôl i fyw'n annibynnol neu gynnal yr annibyniaeth sydd ganddynt. Gan ei bod yn rhaglen ataliol, mae'r Gronfa Tai â Gofal yn anelu at leihau'r galw am ofal preswyl tymor hir a'r costau sy'n gysylltiedig â derbyniadau i'r ysbyty a lleoliadau drud. | | |

Rhaid i fuddsoddiadau'r Gronfa Tai â Gofal mewn tai a llety fod yn garbon isel a chyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r gronfa'n adeiladu ar raglen gyfalaf flaenorol y Gronfa Gofal Integredig ac mae'n parhau i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i *"gefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal"* ac i *"ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol"*.

Ar ben hynny, oherwydd mai prif nod y rhaglen yw cynyddu'r stoc dai bresennol, unedau tai cymdeithasol â thenant yw'r rhain a fydd yn cyfrif tuag at gyflawni'r targed o *20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel* i'w rhentu.

Mae 2% o gynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i'r gyllideb ar gyfer 2026-27 i gynorthwyo'r gwaith cyflawni a'r lefelau cyllid mewn termau real.

# Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel

## 4a. Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd

| BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1065 - Datgarboneiddio ac Ansawdd Preswyl | 1,680 | 96,900 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r BEL hon yn ategu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: "*Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol*". Mae hefyd yn cyflawni o ran dau ofyniad statudol allweddol: Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 – cyflawni gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector tai; ac Adran 33A o Ddeddf Tai 1996 – ynghylch gosod safonau (h.y. Safon Ansawdd Tai Cymru).<br><br>Bydd y cyllid hwn yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi i leihau eu hallyriadau carbon a gwella eu heffeithlonrwydd ynni, gan eu gwneud yn rhatach i aelwydydd eu gwresogi.  Mae ein strategaeth a'n buddsoddiad yn | | |

| |
|---|
| blaenoriaethu tai cymdeithasol, yn dangos yr arferion gorau, ac yn datblygu cadwyni cyflenwi a sgiliau a fydd yn ysgogi'r farchnad, ac yn llywio'r strategaeth rhaglenni ôl-osod ar gyfer cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr.<br><br>Mae'r cyllid refeniw sy'n ategu'r rhaglen gyfalaf hon yn cynnwys cyllid ar gyfer: staffio; rhedeg canolfan datgarboneiddio sero net yng Nghymru; a'r tîm sy'n gyfrifol am reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.<br><br>Mae'r £96.9 miliwn o ddyraniad cyfalaf yn cynnwys £3.06 miliwn o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol a fydd yn cynorthwyo'r gwaith parhaus o gyllido benthyciadau ôl-osod i berchen-feddianwyr sy'n barod i fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni a gwresogi carbon isel ond nad oes ganddynt y cyfalaf ymlaen llaw. |

## 4b. Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli

| BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1061 - Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli | - | 110,160 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r gyllideb yn ategu'r grant cyfalaf Lwfans Atgyweiriadau Mawr, a ddyrannwyd i'r 11 Awdurdod Lleol sydd wedi cadw eu stoc tai cyngor ac sy'n rhan o'u hadnoddau cyfalaf tai cyffredinol. Mae'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn darparu cyfraniad ariannol i raglenni i sicrhau bod stoc dai Awdurdodau yn cynnal Safon Ansawdd Tai Cymru.<br><br>Mae'r gyllideb hefyd yn ategu cyllid y Bwlch Taliadau Gwaddoli, a ddarparwyd i 10 cymdeithas dai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr a sefydlwyd i dderbyn tai cyngor eu Hawdurdod Lleol. Mae'r grant yn sicrhau bod addewidion a wneir i denantiaid, gan gynnwys cyrraedd a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru ar adeg trosglwyddo, yn cael eu cyflawni. | | |

Mae 2% o gynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i'r gyllideb ar gyfer 2026-27 i gynorthwyo'r gwaith cyflawni a'r lefelau cyllid mewn termau real.

# Diogelwch Adeiladau

## 5. Diogelwch Adeiladau

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2255 – Diogelwch Adeiladau | 4,543 | 130,224 |

**Diben y BEL**

Bydd Rhaglen Adfer Diogelwch Adeiladau Cymru'n mynd i'r afael â phroblemau o ran diogelwch tân mewn tai uchel iawn a chanolig (adeiladau preswyl dros 11 metr o uchder). Roedd Cam 1 y Rhaglen yn canolbwyntio ar waith arolygu ymwthiol i ganfod hyd a lled y materion diogelwch tân a oedd yn bresennol, ac a oedd y rhain yn ganlyniad i ddiffygion cysylltiedig ag adeiladu, gwaith cynnal a chadw annigonol neu weithredoedd lesddeiliaid unigol. Mae Cam 2 y Rhaglen yn canolbwyntio ar adfer a mynd i'r afael â materion fel cladin nad yw'n cydymffurfio, adrannu a gosod systemau atal tân, gwagio a rhybuddio.

Mae mynd i'r afael â diogelwch adeiladau sy'n gysylltiedig â thanau yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Gyda 459 o adeiladau yn ein rhaglen adfer diogelwch adeiladau, mae gennym ddealltwriaeth gynyddol fanwl o'r gwaith sydd i'w wneud a phroffil y gwariant sydd ei angen dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn parhau i fonitro cynnydd a phwyso am gyflymder gan bawb dan sylw a byddwn yn teilwra ein cyllideb i gyd-fynd â'r rhaglen waith.

Mae'r BEL hon yn cyfrannu at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu: *"Diwygio'r system diogelwch adeiladau bresennol, gan gynnwys ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi".*

| |
|---|
| Mae 2% o gynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2026-27 i gynorthwyo'r gwaith cyflawni a'r lefelau cyllid mewn termau real. |

# Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy

## 6a. Grantiau Tai Cymdeithasol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0982 - Grantiau Tai Cymdeithasol | - | 445,995 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r dyraniadau a wneir i'r BEL hon yn cyfrannu at un o brif flaenoriaethau'r Prif Weinidog o ddarparu mwy o gartrefi a'r Rhaglen allweddol ar gyfer blaenoriaeth y Llywodraeth i ddarparu *20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu* yn y sector cymdeithasol yn ystod tymor y Senedd hon, yn ogystal â chyllido cartrefi cymdeithasol a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod tymor nesaf y Senedd.<br><br>I ategu ein Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, sydd wedi ei sefydlu'n dda, ac i helpu i ganolbwyntio ar gyflenwi rhagor o dai yn gyflym i fodloni'r angen am dai, cafodd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro ei chyflwyno yn 2022.<br><br>Bydd £8.22 miliwn o gynnydd chwyddiannol o gyfalaf craidd i'r cyllid ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn 2026-27 yn darparu mwy o gartrefi i gynorthwyo ein gwaith i roi diwedd ar ddigartrefedd a sicrhau bod gan bawb yng Nghymru le diogel a gweddus i'w alw'n gartref. | | |

Ynghyd â'r cynnydd mewn cyfalaf craidd, dyrannwyd £26.775 miliwn o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol i ategu Benthyciadau Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bwriad y cyllid benthyciadau yw cywiro methiant presennol yn y farchnad oherwydd bod y sector tai yn wynebu nifer o heriau anodd, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn tendrau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau a phrisiau contractwyr mewn mwy o risg, chwyddiant cynyddol a chyfraddau llog a dyledion drwg uwch a chyfraddau di-rym.

Mae buddsoddi mewn mwy o gartrefi yn rhoi cyfle i deuluoedd ffynnu, gan wella iechyd, llesiant, ansawdd bywyd a chanlyniadau. Mae adeiladu cartrefi newydd yn cyfrannu at economïau lleol, gan greu a chefnogi swyddi, cyfleoedd hyfforddi a chryfhau cadwyni cyflenwi.

Mae'r BEL hon yn cyfrannu at atal pwysau ar wasanaethau eraill, a gall buddsoddi mewn tai o ansawdd gwell gael effeithiau ehangach na gwella'r stoc dai yn unig. Ar gyfer pob grŵp oedran, mae'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod â salwch, anabledd neu wendid hirdymor cyfyngol na pherchen-feddianwyr a'r rhai sy'n rhentu'n breifat. Gall gwella ansawdd tai liniaru'r cyflyrau hyn ac atal y gofyniad am ymyriadau gan y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Gan hynny, mae potensial y bydd buddsoddi mewn tai o ansawdd da yn arwain at enillion economaidd mawr yn ogystal â lleihau ein hallyriadau a lefelau tlodi tanwydd. Mae'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd a llesiant preswylwyr, a all yn ei dro helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill.
Bydd ein hymgyrch i ddarparu Mwy o Gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar draws Cymru gyfan a'i phoblogaeth.

Grant Tai Cymdeithasol:

- *Darparu cartrefi sy'n gynnes, yn ddiogel, yn effeithlon o ran ynni ac o ansawdd uchel i'r bobl sydd eu hangen fwyaf, gan helpu i leihau tlodi tanwydd.*
- *Cefnogi'r economi sylfaenol, y diwydiant adeiladu a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys swyddi a phrentisiaethau*

- *Cefnogi'r newid trawsffurfiol o wasanaethau digartrefedd i broses ailgartrefu gyflym, sy'n golygu bod pobl ddigartref yn cael eu cynorthwyo'n gyflym i symud yn ôl i gartrefi parhaol addas.*
- *Helpu pobl hŷn a'r rhai sydd angen gofal ychwanegol i osgoi dibynnu ar ofal preswyl neu hirdymor, gan leihau'r baich ar y GIG.*
- *Darparu tai cymdeithasol o ansawdd da sy'n cael effaith sylweddol ar bobl a chymunedau, gan helpu i gyflawni ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd, gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a sicrhau bod y rhai ag anghenion cymhleth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.*

## 6b. Grant Cyllid Tai

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0984 - Grant Cyllid Tai | 5,287 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r cyllid hwn, a sefydlwyd cyn 2017/18, yn cynrychioli'r ymrwymiad cyfreithiol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i helpu i ad-dalu lleoliad preifat bond 30 mlynedd sydd wedi caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fenthyca tua £120 miliwn o gyllid preifat i gyllido'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy ychwanegol, sy'n costio £4.1 miliwn y flwyddyn. Cafodd Cam 2 y Grant Cyllid Tai ei gwblhau gyda dyraniad o £9 miliwn y flwyddyn o gyllid adnoddau o gronfeydd wrth gefn am gyfnod o 30 mlynedd. Cafodd ei ymestyn i gynnwys awdurdodau lleol o 2018-19 ymlaen, sef y Grant Tai Fforddiadwy.<br><br>Mae cyllideb y Grant Cyllid Tai yn parhau i fod yn £13.1 miliwm ac mae'n cynrychioli'r ymrwymiad cytundebol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gefnogi'r Grant Cyllid Tai. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymrwymiad a'r llinell yn y gyllideb yn cael ei wrthbwyso gan incwm a ragwelir o ffynonellau eraill ar draws y MEG. | | |

# Cronfa Refeniw Tai

## 7. Cronfa Refeniw y Rhaglen Tai

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1181 - Cronfa Refeniw y Rhaglen Tai | 1,122 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r gyllideb hon yn cyllido costau ategol ar gyfer cyllidebau cyfalaf fel ymchwil a gwerthuso. Cyngor cyfreithiol a chostau trwyddedu. Mae hefyd yn cefnogi ymyriadau fel Swyddogion Galluogi Tai Gwledig, tai cydweithredol, gwaith i ddarparu tir Llywodraeth Cymru a gwerthusiadau o gyflwr y stoc dai yng Nghymru. | | |

# Yr Is-adran Tir

## 8. Yr Is-adran Tir

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 6410 - Cronfa Rhyddhau Tir | -1,540 | 25,500 |
| **Diben y BEL** | | |
| Dyrennir cyllideb weithredol o £25.5 miliwn o gyfalaf i'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau a chydosod/datblygu tir.<br><br>Mae'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau yn helpu i ddadrisgio tir ac adeiladau er mwyn bwrw ymlaen â gwaith datblygu. Yn benodol ar gyfer adeiladau, mae'n gallu talu'r costau sy'n gysylltiedig ag eitemau 'anarferol' fel cael gwared ar asbestos, sy'n gallu bod yn rhwystr rhag trosi, ac yn achos tiroedd mae'n helpu gyda materion fel halogi.<br><br>Mae'r gyllideb refeniw o -£1,540 yn ymwneud â'r sefyllfa net ddisgwyliedig o ran gwerthu tir.<br><br>Mae'r BEL hon yn ategu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "*gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy*". | | |

# Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad

## 9a. Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0987 - Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill | - | 83,630 |
| 0987 - Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill - Ad-daliadau | - | -5,467 |
| **Diben y BEL** | | |
| Drwy gefnogi pobl sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartref eu hunain, ond sydd angen cymorth ariannol i wneud hynny, mae ein hymyriadau o ran tai'r farchnad yn gwneud cyfraniad allweddol i fynd i'r afael ag anghenion o ran tai yng Nghymru, yn ogystal â rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu tai a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig.<br><br>Bydd dyraniadau i'r BEL hon yn parhau i ategu'r Grant Cartrefi Gwag (£25.5 miliwn) gyda £58.14 miliwn ychwanegol o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol wedi ei ddyrannu i gynorthwyo'r gwaith o ymestyn Cynllun Cymorth i Brynu Cymru am flwyddyn, sy'n dangos ein cefnogaeth barhaus i bobl sy'n dyheu am fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain.<br><br>Cafodd y Grant Cartrefi Gwag ei gyflwyno ym mis Ionawr 2023 fel cymhelliant ychwanegol, ochr yn ochr â phecyn o fesurau eraill, i leihau nifer yr eiddo gwag ymhellach, a thrwy hynny gynyddu'r cyflenwad tai.<br><br>Mae Cymorth i Brynu - Cymru yn cynnig benthyciad rhannu ecwiti sydd ar gael ar gyfer cartrefi a adeiledir o'r newydd hyd at uchafswm gwerth o £300,000. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cymru'r Dyfodol wrth i'r rhaglen symud i'r farchnad perchnogaeth breifat, gan helpu i leihau'r pwysau ar y sectorau rhentu cymdeithasol a phreifat. Mae Cymorth i Brynu - Cymru wedi darparu bron i 15,000 o gartrefi newydd ers 2014 ac mae dros 70 o ddatblygwyr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun. | | |

Mae cyfran y prynwyr am y tro cyntaf wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf - mae 85% o brynwyr ers mis Ebrill 2022 wedi bod yn brynwyr am y tro cyntaf.

## 9b. Cymorth Prynu

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0980 - Cymorth Prynu | - | 4,080 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae Cymorth Prynu yn gynllun sy'n helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain drwy rannu ecwiti, sydd ar gael ar gyfer cartrefi presennol. Mae'r cynllun yn boblogaidd mewn ardaloedd gwledig, lle nad yw tai newydd ar gael yn rhwydd.<br><br>Mae Cymorth Prynu yn rhan o becyn ehangach i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau sydd â lefelau uchel o ail gartrefi yng Nghymru, ac mae'n cynorthwyo pobl sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain.<br><br>Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad yn glir i fynd i'r afael â fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle mae achosion uchel o ail gartrefi. Mae Cymorth Prynu yn rhan o'r pecyn i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd drwy dargedu a theilwra rhaglenni tai presennol. | | |

# Adfywio

# 10a.Adfywio

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 4151 - Adfywio | -13,321 | 40,800 |
| **Diben y BEL** | | |

Mae buddsoddi yn ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn cefnogi canol ein trefi a'n dinasoedd.  Mae'r rhaglen yn hybu trefi defnydd cymysg fel mannau i fyw ynddynt, i weithio ynddynt, i ymweld â nhw ac i aros ynddynt. Mae prif elfennau'r gweithgaredd 'creu lleoedd' hwn yn cynnwys cyfraniad cryf gan y gymuned, llesiant, gwella mannau sy'n bodoli eisoes, a chynnal eu hunaniaeth unigryw. Trawsnewid Trefi yw buddsoddiad adfywio craidd Llywodraeth Cymru yng nghanol trefi.  Mae'r holl benderfyniadau buddsoddi yn seiliedig ar Gynlluniau Creu Lleoedd a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol a'r gymuned leol.

Bydd trefi unigol wedi elwa drwy ganfod y cymysgedd o ymyriadau sy'n gweddu orau i'w nodweddion penodol, eu cryfderau, eu diwylliant a'u treftadaeth leol.

Mae ein buddsoddiad mewn adfywio yn cynorthwyo'r ymrwymiadau a ganlyn yn y Rhaglen Lywodraethu:

- *Galluogi canol ein trefi i fod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio'n gydweithredol, cynyddu eu darpariaeth ddigidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol*
- *Datblygu uwchgynlluniau ar gyfer trefi a'r stryd fawr*
- *Grymuso cymunedau i fod â mwy o ran mewn adfywio lleol*
- *Creu mwy o fannau gwyrdd cymunedol yng nghanol trefi*
- *Addasu mannau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau awyr agored, marchnadoedd, gwerthwyr stryd, parciau dros dro a pharciau bach*
- *Cynnig cefnogaeth i ddatblygu cofrestr o adeiladau gwag a helpu busnesau bach i symud i siopau gwag.*

Mae 2% o gynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2026-27 i gynorthwyo'r gwaith cyflawni a'r lefelau cyllid mewn termau real.

Mae'r sefyllfa o ran adnoddau yn negyddol gan fod gwariant a gynlluniwyd yn cael ei wrthbwyso gan incwm disgwyliedig.

## 10b.Awdurdod Harbwr Caerdydd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 4162 - Awdurdod Harbwr Caerdydd | 5,400 | - |

| **Diben y BEL** |
|---|
| Ymgymerodd Cyngor Caerdydd â rôl Awdurdod Harbwr Caerdydd ar 1 Ebrill 2000. Manylir ar swyddogaethau a chyfrifoldebau Awdurdod Harbwr Caerdydd mewn Cytundeb a wnaed rhwng gweinidogion Cymru a Chyngor Caerdydd o dan Adran 165 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980. Mae'r Cytundeb Adran 165 yn gorfodi gweinidogion Cymru i dalu i Gyngor Sir Caerdydd y symiau sy'n angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae'r gyllideb hon yn darparu'r cyllid sy'n ofynnol gan Awdurdod Harbwr Caerdydd i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn ac unrhyw ddyletswydd ychwanegol sy'n ymwneud â Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993. Mae'r cyllid hwn, heb gyfrif unrhyw incwm a gynhyrchir drwy weithredu Awdurdod Harbwr Caerdydd, yn cael ei glustnodi gan Gyngor Caerdydd.<br><br>Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau Awdurdod Harbwr Caerdydd yn cynnwys:<br>• *Rheoli'r amgylchedd a chadwraeth*<br>• *Monitro a rheoli dŵr daear*<br>• *Cyswllt cymunedol a digwyddiadau*<br>• *Gweithredu a chynnal a chadw rhwystrau, gan gynnwys cynllunio at argyfyngau a diogelwch*<br>• *Dyletswyddau meistr yr harbwr a gweithrediadau morol*<br>• *Gorfodi Is-ddeddfau*<br>• *Diogelwch mordwyo a chynllunio at argyfyngau* |

- *Gweithredu Canolfan Gweithgarwch Dŵr Bae Caerdydd, Canolfan Hwylio Caerdydd a Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd.*

# Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol

## 11a. Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0840 - Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | 5,267,744 | |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae awdurdodau lleol yn darparu amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus i bawb yn eu cymunedau ac i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas neu'r rhai sydd dan anfantais economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sylweddol i blant, drwy addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac amrediad eang o wasanaethau i oedolion a allai fod yn wynebu heriau yn eu bywydau bob dydd, drwy wasanaethau cymdeithasol, cymorth tai a gwasanaethau cymunedol eraill. Mae gwasanaethau cyffredinol fel priffyrdd a gwastraff a diogelu'r cyhoedd yn bwysig i bob aelwyd ac mae gwasanaethau fel cynllunio yn effeithio ar drigolion a busnesau.<br><br>Mae'r £257.31 miliwn o gynnydd mewn cyllid refeniw ers Cyllideb Derfynol 2025-26 ar gyfer y setliad llywodraeth leol yn cynnwys £97.223 miliwn o drosglwyddiadau sylfaenol i ategu'r cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol, £17.848 miliwn i ategu dyfarniad cyflog athrawon 2025/26, £4.019 miliwn i gydlynwyr ADY symud i'r raddfa gyflog uchaf a £14.9 miliwn i ategu dyfarniad cyflog NJC 2025-26 sy'n uwch na'r rhagdybiaeth gynllunio gyffredinol. Mae cynnydd yn ychwanegol at y rhai sydd wedi eu cynnwys yn y llinell sylfaen ddiwygiedig uchod, yn £114.172 miliwn o gynnydd i ategu | | |

chwyddiant cyffredinol a chwyddiant cyflogau a £552,000 o drosglwyddiad i gydnabod y cynnydd yn yr ardoll a fydd yn cael ei chymhwyso i gyflog diffoddwyr tân. Mae £8.6 miliwn wedi ei gynnwys i roi terfyn isaf gyda'r nod o sicrhau na fydd yr un awdurdod yn rhoi cynnydd sy'n is na 2.3%. Ar ben hynny, bydd £2.3 miliwn o grant penodol i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Bil Digartrefedd. Mae'r cynnydd yn unol â chwyddiant yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau allweddol, gan ategu blaenoriaethau'r llywodraeth yn ogystal â chyflawni anghenion lleol.

Bydd y cynnydd yn lefel y cyllid yn helpu awdurdodau lleol gyda materion fel cyflogau, chwyddiant a phwysau ar wasanaethau, ond o ystyried lefelau chwyddiant cyflogau a chynnydd mewn gofynion cymhleth, mae awdurdodau lleol yn debygol o barhau i wneud dewisiadau o ran newidiadau i wasanaethau (gan gynnwys ceisio atal y galw) a gostyngiadau yn ogystal â chynnydd pellach yn y dreth gyngor.

Mae fformiwla'r setliad yn dosbarthu cyfanswm y setliad sydd ar gael ar sail dangosyddion angen cymharol, ac mae'r prif ddangosyddion a ddefnyddir yn ymwneud â phoblogaeth, amddifadedd a theneurwydd poblogaeth. Bydd effaith wahanol ym mhob awdurdod o ran cynyddu eu setliad eu hunain. Wrth wneud penderfyniadau lleol i adlewyrchu anghenion lleol, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried effeithiau eu dewisiadau o dan y gofynion statudol sy'n ymwneud â llywodraeth leol, gan gynnwys asesu effeithiau ar gyfer gwahanol grwpiau ac yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd refeniw heb ei neilltuo a chyllid cyfalaf ar gyfer awdurdodau lleol yn cynorthwyo awdurdodau lleol mewn gwasanaethau adweithiol ac ataliol. Gellir ystyried gwasanaethau ataliol ar sail diffiniadau o atal sylfaenol, eilaidd neu drydyddol ac mae enghreifftiau o'r tri ar gael mewn gwasanaethau llywodraeth leol. Yn benodol, bydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys gwasanaethau sydd â'r nod o alluogi pobl i gadw'n iach yn eu cartrefi eu hunain, i fyw'n annibynnol a chyrraedd eu potensial llawnaf. Mae gwasanaethau sy'n atal llifogydd, yn cefnogi ffyrdd iach o fyw, yn darparu mynediad at gyflogaeth, addysg a hamdden i gyd yn wasanaethau ataliol yn yr ystyr ehangaf. Ar ben hynny, bydd gan awdurdodau lleol weithgareddau penodol wedi eu targedu tuag at atal - er enghraifft, gwasanaethau eiddilwch,

| |
|---|
| ailalluogi er mwyn atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty, cyngor a chymorth yn y gymuned. |

## 11b. Rhyddhad ar Ardrethi Annomestig

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0875 - Rhyddhad Ardrethi Annomestig | 18,804 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r gyllideb hon wedi cael ei defnyddio'n flaenorol i ddarparu cyllid grant i bob un o'r 22 awdurdod lleol i ddarparu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i fusnesau cymwys.<br><br>Ni ellir gwneud penderfyniadau polisi ar ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27 tan ar ôl Cyllideb Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig pan ellir ystyried goblygiadau unrhyw gyllid canlyniadol. Bydd rhagor o ddiweddariadau ar y BEL hon yn cael eu gwneud cyn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2026-27. | | |

## 11c. Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0860 - Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu | 112,331 | |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r gyllideb hon yn cyllido gweithgarwch plismona hanfodol mewn cymunedau drwy setliad blynyddol yr heddlu. Mae'r cyllid hwn yn cyfrannu at gyfanswm y cyllidebau sydd ar gael i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyfer darparu gwasanaethau plismona a diogelwch cymunedol yn eu hardaloedd, ochr yn ochr â chyllid y Swyddfa Gartref a phraeseptau'r dreth gyngor. | | |

## 11d. Canlyniadau Refeniw Mentrau Cyllid Preifat Llywodraeth Leol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0885 - Canlyniadau Refeniw Mentrau Cyllid Preifat Llywodraeth Leol | 2,100 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r cyllid hwn yn cyfrannu at gostau blynyddol cynlluniau Menter Cyllid Preifat a sefydlwyd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac sy'n rhedeg dros 20-30 mlynedd. Cytunir ar broffil y cymorth ymlaen llaw, felly mae'r cyfanswm yn lleihau bob blwyddyn ond mae wedi ei ymrwymo dros oes y prosiect. | | |

## 11e. Trawsnewid a Deddfwriaeth

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0887 - Trawsnewid a Deddfwriaeth | 6,193 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r gyllideb hon yn darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu nifer o raglenni llywodraeth leol. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer ymchwil i gynorthwyo'r gwaith o ddiwygio cyllid llywodraeth leol a threthi lleol, a gwaith i gefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth a gwella atebolrwydd, craffu a thryloywder.<br><br>Mae'r BEL hon yn cyfrannu at yr ymrwymiadau a ganlyn yn y Rhaglen Lywodraethu:<br>• *Lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.*<br>• *Cryfhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau.*<br>• *Ehangu ein rhaglen Mynediad at Swydd Etholiadol.*<br><br>• *Mae hefyd yn cefnogi camau gweithredu i alluogi cyflawni'r bennod Llywodraeth Leol yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru.* | | |

## 11f. Costau Casglu Ardrethi Annomestig

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0940 – Costau Casglu Ardrethi Annomestig | 5,172 | |
| **Diben y BEL** | | |
| Cyllideb cyfrifyddu yn unig yw hon (h.y. nid taliadau arian parod) i dalu am weinyddu ardrethi annomestig yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. | | |

## 11g. Cymorth Ariannol Brys

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1600 – Cymorth Ariannol Brys | 1 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae unrhyw gyllid brys yn cael ei ddarparu drwy'r BEL hon. Yn flaenorol mae wedi cael ei defnyddio i gynorthwyo taliadau yn gysylltiedig â Covid ac Wcráin i awdurdodau lleol. Mae hefyd yn cael ei defnyddio pan fydd y Cynllun Cymorth Ariannol Brys yn cael ei sbarduno, er enghraifft mewn tywydd eithafol. Mae'r gyllideb yn £1,000 gan nad oes modd rhagweld yr angen am y Cynllun Cymorth Ariannol Brys ac mae unrhyw gost yn cael ei rheoli yn ystod y flwyddyn. | | |

# Gwasanaethau Prisio

## 12a. Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1500 – Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio | 17,340 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r gyllideb hon yn darparu cyllid blynyddol ar gyfer swyddogaethau statudol Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n rhan o Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, ar gyfer gwasanaethau prisio eiddo yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn darparu'r prisiadau a'r cyngor ar eiddo sy'n ofynnol er mwyn rhedeg y dreth gyngor a'r systemau ardrethi annomestig yn effeithiol, ac i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a gweinyddu polisïau.<br><br>O ran trethiant lleol, mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ddyletswydd statudol i gynnal rhestrau prisio cywir o eiddo, gan ddarparu a chynnal y data prisio sylfaenol sy'n cael ei gadw ar restrau ardrethu annomestig a'r dreth gyngor. Mae'r rhestrau prisio hyn yn sail i gasglu dros £3 biliwn o drethiant lleol bob blwyddyn yng Nghymru.<br><br>Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd yn gyfrifol am fodloni gofynion Llywodraeth Cymru o ran diwygio trethi lleol: mae hyn yn cynnwys gwaith sylweddol i gyflawni ailbrisiad o'r dreth gyngor yn 2028, ailbrisiad ardrethi annomestig yn 2026, ochr yn ochr â diwygiadau eraill i drethi lleol.<br><br>Mae'r BEL hon yn cyfrannu at yr ymrwymiadau a ganlyn yn y Rhaglen Lywodraethu:<br>• *Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig*<br>• *Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod* | | |

## 12b. Tribiwnlys Prisio Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 1540 – Tribiwnlys Prisio Cymru | 1,988 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r gyllideb hon yn darparu cyllid blynyddol ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio.<br><br>Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn darparu gwasanaeth am ddim i'r cyhoedd, gan ddelio ag apeliadau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor, ardrethi annomestig ac ardrethi draenio. Gwrandewir ar apeliadau a phenderfynir arnynt gan aelodau gwirfoddol di-dâl. Mae tîm o staff cyflogedig, dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn darparu'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol.<br><br>Cytunir ar gyllid drwy gytundeb fframwaith ffurfiol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn dal yn addas i'r diben ac yn cael ei reoli o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu hategu gan gyfarfodydd monitro rheolaidd i sicrhau bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn cadw rheolaeth effeithiol dros ei weithrediadau.<br>Yn ddiweddar, mae Tribiwnlys Prisio Cymru wedi ehangu er mwyn paratoi ar gyfer eu rôl hanfodol yn darparu rhaglenni diwygio ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig.<br><br>Mae'r BEL hon yn cyfrannu at ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu; *"Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig".* | | |

## 12c. Diwygio Trethiant Lleol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1550 – Diwygio Trethiant Lleol | 4,896 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Prif bwrpas y cyllid hwn yw cynorthwyo Asiantaeth y Swyddfa Brisio i wneud gwaith paratoi cyn diwygio'r dreth gyngor, fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wneud y dreth gyngor yn decach. Mae hefyd yn cyllido gwaith ymchwil a dadansoddi i fonitro a gwerthuso'r system dreth leol (gan gynnwys yr ymrwymiad i archwilio'r Dreth Gwerth Tir ymhellach), ochr yn ochr â | | |

| |
|---|
| chynnal meddalwedd ar gyfer rheoli gweithrediad blynyddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.<br>Mae'r BEL hon yn cyfrannu at yr ymrwymiadau a ganlyn yn y Rhaglen Lywodraethu:<br>• *Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig*<br>• *Cryfhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau*<br>• *Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod* |

# Adeiladu Democratiaeth Leol

## 13a. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1440 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru | 1,773 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r BEL hon yn darparu'r cyllid ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd â dyletswyddau statudol i gynnal adolygiadau o etholaethau'r Senedd, ac adolygiadau etholiadol a chymunedol lleol. Mae ganddo hefyd y swyddogaethau statudol i bennu'r tâl ar gyfer cynrychiolwyr etholedig lleol a darparu Bwrdd Rheoli Etholiadol i arwain y gwaith o gyflwyno etholiadau Datganoledig yng Nghymru yn effeithiol. | | |

## 13b. Gwariant i Hyrwyddo Democratiaeth Leol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1462 – Gwariant i Hyrwyddo Democratiaeth Leol | 67 | - |
| **Diben y BEL** | | |

| |
|---|
| Mae'r BEL hon yn darparu cyllid ar gyfer amrywiaeth o aelodaethau ymchwil a sefydliadol sy'n cynorthwyo ac yn galluogi datblygu polisi yn y portffolio llywodraeth leol. |

### 13c. Polisi Etholiadau

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1463 – Polisi Etholiadau | 3,468 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r Gyllideb hon yn cynorthwyo gwaith diwygio etholiadol, yn enwedig gweithredu'r Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig, a gwaith i hyrwyddo ymgysylltu â democratiaeth. Eleni hefyd, bydd angen cyllid ar gyfer hyfforddiant i staff llywodraeth leol cyn etholiadau'r Senedd yn 2026.<br><br>Y BEL hon yw'r prif gyfrannwr at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ynghylch *"Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd."* | | |

## Gwella Llywodraeth Leol

### 14. Gwella a Chefnogi

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1571 – Gwella a Chefnogi | 2,847 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'n darparu ar gyfer cymorth ar gyfer gwelliannau, gwydnwch a thrawsnewid digidol cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ynghyd â chontract gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio – newid yn yr hinsawdd a chyflawni'r gyllideb cyfalaf datgarboneiddio. | | |

| |
|---|
| Mae'r BEL hon yn cyfrannu at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu: *"Cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau."* |

## Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol

### 15. Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1675 – Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | - | 234,600 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r cyllid hwn wedi gostwng £0.4 miliwn yn gyffredinol yn 2026/27 gan mai buddsoddiad yn 2025-26 yn unig oedd y £5 miliwn untro ar gyfer datgarboneiddio mewn canolfannau hamdden. Fodd bynnag, bu 2% (£4.6 miliwn) o gynnydd chwyddiant yn y cyllid sylfaenol diwygiedig i roi cyfanswm o £234.6 miliwn.<br><br>Rhennir y cyllid hwn yn dri maes:<br>• *£30.6 miliwn ar gyfer grant gwres carbon isel llywodraeth leol sy'n cael ei redeg drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.*<br>• *£115.2 miliwn o grant cyfalaf cyffredinol, a ddefnyddir ar gyfer arian cyfatebol ar gyfer prosiectau cyfalaf eraill a phrosiectau cyfalaf neu gynnal a chadw cyfalaf ar raddfa fach.*<br>• *£88.8 miliwn o ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer benthyca â chymorth (swm refeniw yn y setliad y gellir ei ddefnyddio i dalu ad-daliadau llog ar fenthyca).* | | |

## Academi Wales

## 16. Academi Wales

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 7093 – Academi Wales | 1,357 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Academi Wales yw'r ganolfan ragoriaeth ar gyfer arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n swyddogaeth alluogi, sy'n cyfrannu at gapasiti a gallu arweinwyr ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru i ymateb i ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu neu ofynion deddfwriaethol. Yn sail i hyn mae ffocws ar ymddygiadau a gwerthoedd arweinyddiaeth sy'n sail i gyflawni. Mae dros hanner y gyllideb (tua £830,000) yn cefnogi swyddi a gyllidir gan raglenni yn y tîm cyflawni. Gellir ystyried bod y gyllideb yn gwbl ymrwymedig i'r amrywiaeth o raglenni datblygu arweinyddiaeth, gan gynnwys ein hysgolion haf a gaeaf, ymyriadau arweinyddiaeth ac amrywiaeth o ddosbarthiadau meistr a rhaglenni. Mae gan nifer fawr o'r rhain amrywiaeth o drefniadau a chytundebau cytundebol ar waith i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni. Ar ben hynny, er mwyn cyflawni'r Strategaeth Tair Blynedd a gyhoeddwyd gan Academi Wales, bydd rhan o'n cyllideb flynyddol yn cael ei dyrannu i weithgareddau ymchwil a gwerthuso, er mwyn sicrhau arloesi parhaus. | | |

# Cefnogi Cydweithredu a Diwygio

## 17. Cynghorau Cymuned a Thref

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1574 – Cynghorau Cymuned a Thref | 147 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r BEL hon yn darparu cymorth i'r sector cynghorau tref a chymuned drwy gyllid craidd i'w gorff cynrychioladol, Un Llais Cymru. Mae hefyd yn ategu | | |

| |
|---|
| grant i'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ar gyfer datblygu a hyfforddi clercod.<br><br>Mae'r BEL hon yn cyfrannu at ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu: *"Cryfhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau".* |

# Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwydnwch

## 18a. Gwasanaethau Tân ac Achub

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1265 - Gwasanaethau Tân ac Achub | 3,119 | 1,020 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r BEL hon yn cyllido cyflog ac argostau Prif Gynghorydd Tân ac Achub Llywodraeth Cymru ac Arolygydd Eiddo'r Goron (y mae'n rhaid i ni benodi a thalu'r ddau), a chyngor actiwaraidd a chyfreithiol ar Bensiynau ymladdwyr tân o Actiwari'r Llywodraeth ac Adrannau Cyfreithiol y Llywodraeth, y mae'n rhaid i ni unwaith eto eu cael yn ôl y gyfraith. Mae'r BEL wedi cael ei chynyddu £300,000 i gynorthwyo trefn arolygu well yn 2026/27 i gynorthwyo diwygio llywodraethu'r Gwasanaethau Tân ac Achub.<br><br>Mae elfennau refeniw (£2.2 miliwn) a chyfalaf (£1.02 miliwn) y BEL hon hefyd yn cyllido'r criwiau a'r offer arbenigol ar gyfer galluoedd rheng flaen Gwydnwch Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub i ymateb i drychinebau mawr (adeiladau'n cwympo, digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear, llifogydd difrifol ac ymosodiadau terfysgol). Mae'r elfen refeniw wedi cynyddu £200,000 i gynnal y galluoedd hynny ar eu lefel bresennol. | | |

## 18b. Y Gwasanaeth Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1697 - Y Gwasanaeth Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu | 1,301 | 214 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddarparu i gyfraniad Swyddfa Gartref Cymru at y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, sef y llwyfan cyfathrebu ar gyfer y gwasanaethau brys yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn Gorff sy'n Noddi, sy'n golygu bod y cyfraniad at Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn ymrwymiad cytundebol hirdymor. | | |

## 18c. Diogelwch Tân Cymunedol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1698 - Diogelwch Tân Cymunedol | 378 | 918 |
| **Diben y BEL** | | |

| |
|---|
| Mae'r gyllideb refeniw yn cyllido amrywiaeth o ymyriadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub gyda phlant a phobl ifanc, gyda'r nod o'u symud oddi wrth droseddu a mathau eraill o ymddygiad negyddol. Mae'r rhaglenni'n defnyddio diffoddwyr tân fel modelau rôl a ffigurau awdurdod cadarnhaol, a'u nod yw meithrin hunan-barch, hyder, gwaith tîm a pharch at eraill. Mae nifer y cyfranogwyr fel arfer oddeutu 500 y flwyddyn ar gyfer y rhaglen fwyaf dwys ("Ffenics"), sef y rhai sydd fwyaf mewn perygl o droseddu, gydag oddeutu 3,000 ar y rhaglen "Myfyrio" llai dwys.<br><br>Mae elfen gyfalaf y gyllideb yn talu am ddarparu offer diogelwch yn rhad ac am ddim i aelwydydd sydd mewn perygl penodol o dân yn y cartref (e.e. oherwydd henaint, anabledd neu broblemau iechyd meddwl). |

# Ystadau Cymru

## 19. Ystadau Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1576 - Ystadau Cymru | 500 | |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae Ystadau Cymru (YC) yn bartneriaeth a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o feithrin rhagoriaeth o ran rheoli asedau ar y cyd ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae cyfran fawr o gyllideb YC yn cyllido cynllun grant Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau (ACPW3) (refeniw). Mae'r cynllun hwn yn cynorthwyo prosiectau asedau cydweithredol arloesol ledled Cymru ac, mewn llawer o achosion, mae'n cyllido prosiectau nad ydynt yn cael cymorth o fannau eraill.<br><br>Yn ogystal â'r cynllun grant, mae ein ffrydiau gwaith craidd yn canolbwyntio ar ddiogelwch adeiladau, cynaliadwyedd ac asedau cymunedol. Drwy gydweithio'n agos â phartneriaid, rydym yn cynnig cymorth ac arweiniad i rymuso'r sector cyhoeddus yn y meysydd hyn. | | |

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mae gwariant nad yw'n rhesymol iddo fod yn ddarostyngedig i derfynau cadarn dros nifer o flynyddoedd, neu sy'n ymwneud â thrafodion anariannol penodol, wedi ei gynnwys mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME).

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnodd £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 0981 – Tai'r Farchnad – AME | 16 | - |
| 0870 - Swm Dosbarthadwy Ardrethi Annomestig - AME | 1,178,000 | - |
| 0865 - Darpariaeth Drwgddyledion - AME | 227 | - |
| 1699 - Pensiynau'r Gwasanaeth Tân - AME | 35,641 | - |
| **Cyfanswm AME** | **1,213,884** | |

BEL 0981 - Tai'r Farchnad
Mae'r gyllideb yn ymwneud â'r addasiadau gwerth teg ar lyfr benthyciadau Cynllun Cymorth i Brynu Cymru. Mae'r rhagolygon yn gyfnewidiol iawn gan eu bod yn ymwneud â chyfran ecwiti Llywodraeth Cymru o'r cynllun, ac maent yn sensitif iawn i unrhyw symudiad yn y Mynegai Prisiau Tai. Mae'r model yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu data diweddaraf HPI, RPI a ffactor disgownt (cost cyfalaf). Mae dyraniad presennol y gyllideb yn cynrychioli'r rhagolwg diweddaraf.

BEL 0870 - Swm Dosbarthadwy Ardrethi Annomestig
Mae'r gyllideb yn cynrychioli'r gwariant a gyllidir drwy incwm Ardrethi Annomestig yng Nghymru.

BEL 0865 - Darpariaeth Drwgddyledion - AME
Mae'r gyllideb yn adlewyrchu'r symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.

BEL 1699 – Pensiynau'r Gwasanaeth Tân

| |
|---|
| Mae dyraniad y gyllideb yn grant i dalu am y diffyg rhwng cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r buddion pensiwn sy'n cael eu talu ar hyn o bryd. Mae dyraniad presennol y gyllideb yn adlewyrchu'r rhagolwg diweddaraf a gafwyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub. |

# 2. Newidiadau i ddyraniadau ers 2025/26

| Crynodeb | Cyllideb Derfynol 2025-26 £000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £000** | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Cyllideb Ddrafft 2026-27 £000 | Newid £000 | % y newid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 5,483,188 | 75,399 | 5,558,587 | 5,690,029 | 131,442 | 2.3% |
| Cyfalaf Cyffredinol | 1,196,280 | (5,000) | 1,191,280 | 1,215,106 | 23,826 | 2.0% |
| Dyraniad Cyfalaf Trafodiadau Ariannol* | 86,250 | (86,250) | - | 87,975 | 87,975 | |
| Ad-daliadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol* | (13,388) | 13,388 | - | (5,467) | (5,467) | |
| Cyfanswm DEL | 6,752,330 | (2,463) | 6,749,867 | 6,987,643 | 237,776 | |
| | | | | | | |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 1,114,803 | - | 1,114,803 | 1,213,884 | 99,081 | 8.2% |
| | | | | | | |
| Cyfanswm y gyllideb | 7,867,133 | (2,463) | 7,864,670 | 8,201,527 | 336,857 | |

Mae manylion y newidiadau i'r BEL i'w gweld yn Atodiad A.

# 3. Aliniad ag Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

**2.** Mae'r MEG Llywodraeth Leol a Thai yn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn unol ag egwyddorion rheoli cyllideb Llywodraeth Cymru, mae dyraniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn wedi cael eu targedu at ymyriadau sy'n fforddiadwy ac sy'n cynnig gwerth am arian ar yr un pryd â cheisio diogelu gwasanaethau rheng flaen sy'n amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae manylion y dyraniadau a'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu maent yn eu cynorthwyo ar gael yn y dadansoddiad BEL uchod a thrwy gydol y papur hwn.

# 4. Gwariant Ataliol mewn Dyraniadau Cyllideb

## Llywodraeth Leol

**3.** Bydd refeniw heb ei neilltuo a chyllid cyfalaf yn cynorthwyo awdurdodau lleol mewn gwasanaethau adweithiol ac ataliol. Yn benodol, bydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys gwasanaethau sydd â'r nod o alluogi pobl i gadw'n iach yn eu cartrefi eu hunain, i fyw'n annibynnol a chyrraedd eu potensial llawnaf.

**4.** Mae gofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn rhan hanfodol o'r cymorth iechyd a chymdeithasol sydd ar gael i bobl o bob oed ledled Cymru. Mae gwaith partneriaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn allweddol i hybu gwasanaethau ataliol a lleihau amseroedd aros mewn ysbytai.

**5.** Mae addysg yn wasanaeth hanfodol arall a ddarperir gan awdurdodau lleol; mae'r cyllid craidd a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol yn sail i ddarparu addysg drwy ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd. Mae hefyd yn cynorthwyo'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol drwy ddarpariaeth prif ffrwd ac ysgolion arbennig, gan roi cyfleoedd i bob plentyn ac unigolyn ifanc ddysgu a datblygu i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

**6.** Mae gwasanaethau sy'n atal llifogydd, yn cefnogi ffyrdd iach o fyw, yn darparu mynediad at gyflogaeth, addysg a hamdden i gyd yn wasanaethau ataliol yn yr ystyr ehangaf. Ar ben hynny, bydd gan awdurdodau lleol weithgareddau penodol wedi eu targedu tuag at atal - er enghraifft, [gwasanaethau eiddilwch, ailalluogi er mwyn atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty, cyngor a chymorth yn y gymuned]. Nid yw'r cyllid a ddarperir drwy'r grant cynnal refeniw yn gyllid wedi'i neilltuo; mater i awdurdodau lleol yw penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer ei ddefnyddio. Mae darparu'r cyllid sylweddol hwn fel hyn yn golygu bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynllunio, ariannu a darparu eu gwasanaethau yn y ffordd sy'n gweithio orau i'w poblogaethau lleol nhw.

**7.** Yn y BEL Trawsnewid a Chymorth, darperir cyllid i wella a chefnogi awdurdodau lleol i ymateb i fethiannau llywodraethu neu fathau eraill o fethiannau a'u hatal.

# Tân

**8.** Mae'r BEL diogelwch tân cymunedol yn canolbwyntio'n llwyr ar atal tân, drwy ddargyfeirio plant a phobl ifanc oddi wrth ymddygiad sy'n achosi tân ac ymddygiad troseddol arall, a thrwy leihau'r risgiau tân yn y cartref mae grwpiau agored i niwed yn eu hwynebu.

# Tai

**9.** Yn y sector tai, mae nifer o gynlluniau wedi eu targedu at atal fel y nodir uchod.

**10.** Mae buddsoddi mewn mwy o gartrefi yn rhoi cyfle i deuluoedd ffynnu, gan wella iechyd, llesiant, ansawdd bywyd a chanlyniadau. Mae adeiladu cartrefi newydd yn cyfrannu at economïau lleol, gan greu a chefnogi swyddi, cyfleoedd hyfforddi a chryfhau cadwyni cyflenwi.

**11.** Gall buddsoddi mewn tai o ansawdd gwell gael effeithiau ehangach na gwella'r stoc dai yn unig. Ar gyfer pob grŵp oedran, mae'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod â salwch, anabledd neu wendid hirdymor cyfyngol na pherchen-feddianwyr a'r rhai sy'n rhentu'n breifat. Gall gwella ansawdd tai liniaru'r cyflyrau hyn ac atal y gofyniad am ymyrraeth gan wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Gall hefyd wella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc

**12.** Mae potensial y bydd buddsoddi mewn tai o ansawdd da yn arwain at enillion economaidd mawr, drwy ddatblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi, yn ogystal â lleihau ein hallyriadau a lefelau tlodi tanwydd. Mae'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd a llesiant preswylwyr, a all yn ei dro helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

**13.** Bydd ein hymgyrch i ddarparu mwy o gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar draws Cymru gyfan a'i phoblogaeth.

## Buddsoddi mewn Atal Digartrefedd a Chymorth Tai

**14.** Ymyriadau cynnar yw'r dull mwyaf effeithiol a chost effeithiol o atal digartrefedd. Mae methu ag atal digartrefedd yn arwain at oblygiadau cost uniongyrchol i awdurdodau lleol, gan gynnwys drwy'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â'r ffaith fod bron 11,000 o unigolion yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Yn wir, mae digartrefedd neu'r risg o ddigartrefedd yn tanseilio llesiant, ac yn arwain at gostau ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys cynnydd yn y costau iechyd, iechyd meddwl a phlismona. Mae hefyd yn effeithio ar ganlyniadau hirdymor - er enghraifft, gyda phlant mewn amgylchiadau o'r fath yn methu â chyflawni eu potensial addysgol.

**15.** Y Grant Cymorth Tai yw'r brif ffynhonnell gyllid i gynorthwyo awdurdodau lleol i atal digartrefedd.

**16.** Mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn allweddol i atal digartrefedd ac i gynorthwyo pobl i symud ymlaen yn llwyddiannus o lety dros dro. Dros y 12 mis diwethaf (rhwng mis Awst 2024 a mis Gorffennaf 2025), mae gwasanaethau digartrefedd wedi helpu dros 9,000 o bobl i symud o lety dros dro i lety hirdymor addas. Mae data'r ddwy flynedd ddiwethaf (mis Awst 2023 i fis Gorffennaf 2025) yn dangos bod dros 17,800 o bobl wedi cael eu symud o lety dros dro i lety hirdymor addas, gan roi diwedd ar eu digartrefedd (data Llywodraeth Cymru).

**17.** Roedd ymchwil flaenorol (yn 2020) gan Cymorth Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i effaith gymdeithasol ac ariannol y Grant Cymorth Tai yn amcangyfrif bod y grant yn cynhyrchu arbedion blynyddol gros o £300.4 miliwn i wasanaethau cyhoeddus, neu arbediad blynyddol net o £176.7 miliwn (wrth ystyried gwariant blynyddol y grant ym mis Gorffennaf 2019). Mae hyn yn cynrychioli £1.40 o arbediad net amcangyfrifedig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru am bob £1 o gyllid ar gyfer Grant Cymorth Tai. Amcangyfrifir bod pob £1 o gyllid Grant Cymorth Tai yn cynhyrchu arbediad net o £5.20 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl

**18.** Bydd buddsoddi mewn atal a chymorth drwy'r Grant Cymorth Tai yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion ac aelwydydd agored i niwed yn ogystal ag ar wasanaethau cyhoeddus.

**19.** Mae'r buddsoddiad cynyddol hwn mewn gwasanaethau ataliol hefyd yn ategu ein hagenda trawsnewid ac yn darparu sylfaen gref a ffocws ataliol cyn y diwygiadau deddfwriaethol ar ddigartrefedd.  Ochr yn ochr â'n buddsoddiadau i ddarparu mwy o gartrefi a gwella safonau, mae hyn yn tanlinellu ein hymrwymiad i sicrhau digonolrwydd tai, a'n cynnydd tuag at hynny.

## Buddsoddi mewn cyllidebau Byw'n Annibynnol

**20.** Bydd y buddsoddiad hwn yn cynorthwyo gwasanaethau Gofal a Thrwsio drwy refeniw, ochr yn ochr â £0.5 miliwn o gynnydd chwyddiannol yng nghyllidebau cyfalaf y Rhaglen Addasiadau Brys i gynorthwyo addasiadau a gyllidir gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**21.** Mae addasiadau yn fuddsoddiad ataliol effeithiol i helpu pobl i fyw'n annibynnol a gwella iechyd a llesiant pobl hŷn, plant ac oedolion anabl. Maent yn helpu i leihau amseroedd rhyddhau o'r ysbyty a'r pwysau ar flocio gwelyau mewn ysbytai, yn ogystal â helpu i atal cwympiadau, lleihau dibyniaeth ar ofal, osgoi'r angen i symud i ofal preswyl a gwella cyfleoedd ac ansawdd bywyd a llesiant unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn sylweddol.

**22.** Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr addasiadau sydd eu hangen ledled Cymru dros y tair blynedd diwethaf, sy'n cael ei waethygu gan ôl-groniad a achoswyd gan Covid-19. Mae nifer yr achosion cymhleth wedi cynyddu hefyd, ynghyd â chostau darparu ar gyfer y rhain.

**23.** Mae'r data diweddaraf sydd wedi ei lanhau a'i ddadansoddi sydd ar gael gennym ar gyfer addasiadau tai yng Nghymru (2020-21) yn dangos mai'r gost gyfartalog oedd £117 ar gyfer addasiad bach, £3,840 ar gyfer

addasiad canolig a £16,237 ar gyfer addasiad mawr. Cafodd dros hanner yr addasiadau a ddarparwyd yn 2020-21 eu cyllido gan y Rhaglen Addasiadau Brys (38%) neu awdurdodau lleol o'u cyllidebau eu hunain (20%). Cyllidwyd cyfran lai o'r addasiadau gan Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl, Galluogi (15%) a'r Gronfa Gofal Integredig (6%).

**24.** Mae Adroddiad Effaith Gofal a Thrwsio 2024 yn nodi bod y flwyddyn ddiwethaf wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau gan fod gwasgfa costau byw wedi effeithio ar lesiant pobl hŷn a'u gallu i gynnal cartrefi. Mae'r galw am wasanaethau Gofal a Thrwsio wedi gweld cynnydd arall o un flwyddyn i'r llall. Mae'r duedd hirdymor hon yn deillio o gostau cynyddol llafur a deunyddiau adeiladu, llai o incwm gwario ymysg pobl hŷn, a mwy o gymhlethdod o ran yr angen. Darparodd y gwasanaeth 19,023 Addasiadau Ymateb Cyflym yn 2023/24, gan alluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac atal derbyniadau i'r ysbyty a gofal preswyl. Cafodd 4,685 o gleifion gymorth i gael eu rhyddhau'n gynt ac yn ddiogel gartref drwy eu gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach, gan arwain at arbed tua 25,968 o ddiwrnodau gwely.

**25.** Bydd buddsoddi yn helpu i gyflawni addasiadau ledled Cymru, gan leddfu pwysau ôl-groniadau ar gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol mewn achosion cymhleth, a gallai o bosibl helpu i ehangu cylch gwaith y Rhaglen Addasiadau Brys, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwell i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

# 5. Asesiadau Effaith Integredig Strategol

**26.** Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol amlinellol ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft ar 3 Tachwedd. Bydd Asesiad Effaith Integredig Strategol llawn yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. Bydd hwn yn nodi sut mae ein hymyriadau wedi cael eu targedu i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd, hinsawdd ac effeithiau eraill. Mae dyraniadau wedi cael eu gwneud drwy gydol y portffolio hwn i fynd i'r afael ag effeithiau sydd wedi cael eu nodi a chydag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn golwg; mae'r manylion hyn ar gael drwy gydol y papur hwn.

**27.** Mae ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol amlinellol o Gyllideb Ddrafft 2026-27 yn amlinellu'r dystiolaeth a ystyriwyd ac a oedd yn sail i'n penderfyniadau. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn canfod tueddiadau allweddol ac yn ystyried effeithiau strategol a chronnol penderfyniadau ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i ofynion statudol. Mae hyn yn helpu i leihau unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw un grŵp penodol, yn ogystal â nodi cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas.

**28.** Ni ddylid darllen y ddogfen hon ar ei phen ei hun. Dylid ei darllen ar y cyd â naratif y Gyllideb Ddrafft ehangach a dogfennau ategol, fel Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru a'n dadansoddiad diweddaraf o'r effaith ddosbarthiadol. Ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft, byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r holl dystiolaeth weinidogol i bwyllgorau craffu'r Senedd.

# 6. Asesiad effaith Llywodraeth Cymru ac effaith cynnydd chwyddiant yn unig mewn gwariant adrannol ar gyllidebau llywodraeth leol

**29.** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif pwysau o £560 miliwn yn 2026-27 drwy gyfuniad o chwyddiant, codiadau cyflog a galw cynyddol a chymhlethdod yr angen am wasanaethau. Gwyddom na fydd cyllideb 'chwyddiant yn unig' yn cwrdd â'r holl bwysau, a bydd angen i'r awdurdodau lleol, fel y gwnânt bob blwyddyn, asesu gofynion eu cyllideb a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Bydd angen i awdurdodau wneud dewisiadau lleol, ar ôl ymgynghori â phartneriaid a phobl leol ynghylch lle i gyfeirio'r cyllid sydd ar gael iddynt. Bydd angen i hyn gydbwyso rheoli'r galw, gwasanaethau ataliol a bodloni blaenoriaethau uniongyrchol. Ar sail tueddiadau'r gorffennol, rydym yn rhagweld y bydd cyfran y cyllid sy'n cael ei wario ar addysg a gofal cymdeithasol yn parhau i gynyddu gyda meysydd eraill yn gostwng, boed hynny drwy doriadau i wasanaethau neu newidiadau mewn dulliau darparu.

**30.** Wrth bennu'r gyllideb ddrafft, rydym wedi cymryd camau i gynorthwyo awdurdodau lleol gymaint â phosibl yn y sefyllfa gyllidebol sy'n bodoli eleni. Rydym wedi rhoi 2% o gynnydd chwyddiannol, a 2.2% o gynnydd chwyddiannol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â chyflogau yn dilyn rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Rydym wedi modelu'r swm y gellir ei ddosbarthu o ran ardrethi annomestig yn hytrach na thybio ei fod yn cael ei ailddatgan gyda 2% yn ychwanegol, sy'n cynyddu'r setliad fwy na'r cynnydd yn elfen y grant cynnal refeniw. Rydym wedi cynnwys yn y llinell sylfaen y cyllid y cytunwyd arno yn 2025-26 ar gyfer cyflogau athrawon, cyflog y cytunwyd arno gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol, ac yswiriant gwladol. Mae hyn cyn cymhwyso'r ffactor chwyddiant. Rydym hefyd yn cynnal yr ychwanegiadau untro a gyhoeddwyd fel rhan o'r gyllideb 25-26, £30 miliwn i dargedu oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai a darparu mwy o ofal a chymorth mewn cymunedau lleol drwy'r Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal, a £30 miliwn i

hybu gofal plant drwy Dechrau'n Deg. Rydym hefyd wedi cynnwys cyllid gwaelodol i sicrhau bod y cynnydd lleiaf mewn cyllid yn 2.3%. Rydym yn archwilio ffyrdd o roi hyblygrwydd tymor byr i awdurdodau lleol wrth iddynt osod eu cyllidebau, a hynny drwy fesurau lliniaru statudol - er enghraifft drwy roi opsiynau ynghylch taliadau isafswm darpariaeth refeniw.

# 7. Newid Hinsawdd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Datgarboneiddio

**31.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, ac i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd. Bydd cyllid drwy'r grant cynnal refeniw i'r awdurdodau lleol yn cynorthwyo gwaith i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

**32.** Un o brif flaenoriaethau BEL cyfalaf Gwydnwch Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub fydd parhau i gynorthwyo'r gwaith o wneud gweithrediadau yn y maes hwn yn fwy gwyrdd.  Mae'r gallu Gwydnwch Cenedlaethol yn cynnwys fflyd o gerbydau arbenigol, llawer ohonynt yn llygru'n drwm yn ôl safonau modern, ac yn dod i ddiwedd eu hoes weithredol.  Mae'r rhain yn cael eu tynnu'n ôl yn raddol o'r gwasanaeth, a bydd y grant yn cynorthwyo'r gwaith o ddisodli'r cerbydau hyn ymhellach gyda modelau newydd mwy effeithlon a mwy gwyrdd.  Pan fydd gofynion gweithredol yn atal defnyddio cerbydau hybrid neu gwbl drydanol, bydd cerbydau newydd yn cael eu pweru gan fiodiesel yn lle hynny.

**33.** Gall atal tân hefyd liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.  Gall tân nodweddiadol mewn annedd allyrru tunnell o garbon deuocsid (yn ogystal â nwyon a sylweddau gwenwynig eraill), a gall tân gwyllt mawr allyrru swm sydd sawl mwy na hynny.  Gan hynny, mae lleihau nifer yr achosion o danau o'r fath yn arwain at fanteision y tu hwnt i leihau'r difrod i eiddo a'r amgylchedd maent yn ei achosi'n uniongyrchol.

**34.** Mae £1.840 miliwn o gynnydd chwyddiannol wedi'i ddyrannu yn 2026-27 i gynorthwyo'r rhaglen Datgarboneiddio ac Ansawdd Preswyl. Mae'r buddsoddiad hwn yn ategu ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Mae hefyd yn cyflawni o ran dau ofyniad statudol

allweddol: Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 – cyflawni gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector tai; ac Adran 33A o Ddeddf Tai 1996 – ynghylch gosod safonau tai.

- *Bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gynorthwyo'r sector tai cymdeithasol, drwy'r Rhaglen ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob landlord tai cymdeithasol yn cymryd rhan yn y cynllun hwn er mwyn iddynt allu integreiddio'r agenda datgarboneiddio yn eu rhaglenni cynnal a chadw wedi ei gynllunio.*
- *Dyrannwyd £3.06 miliwn ychwanegol o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol yn 2026-27 i gefnogi parhad benthyciadau llog isel i berchen-feddianwyr sy'n barod i fuddsoddi mewn datgarboneiddio eu cartrefi.*
- *Mae ein buddsoddiad mewn Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli hefyd yn cynorthwyo'r gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid cyflenwi landlordiaid cymdeithasol, wedi buddsoddi biliynau o bunnoedd i wella a chynnal ansawdd cartrefi cymdeithasol yn sylweddol ledled Cymru dros y ddau ddegawd diwethaf ar ôl cyflwyno safon wreiddiol Safon Ansawdd Tai Cymru. Erbyn 2022, roedd yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru wedi cyrraedd y safon heriol.*
- *Lansiwyd fersiwn newydd o* Safon Ansawdd Tai Cymru ym mis Hydref 2023. Mae'r safon newydd hon yn cadw gofynion gwrthdlodi wrth ei gwraidd, gwella effeithlonrwydd ynni, gyda'r nod o roi mwy o arian ym mhocedi tenantiaid a chynorthwyo eu cysur a'u llesiant.

**35.** Mae adeiladu ar gyllid cyfalaf a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol ar gyfer datgarboneiddio gwresogi adeiladau awdurdodau lleol wedi cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant i £31 miliwn. Gellir defnyddio'r cyllid hwn mewn prosiectau annibynnol neu fel rhan o raglenni cyfalaf ehangach i leihau ôl troed carbon ystâd yr awdurdod lleol.

# 8. Llywodraeth Leol a chydymffurfio â dyletswyddau statudol a/neu flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu; y Gymraeg, anghydraddoldebau a'r argyfwng hinsawdd a natur

**36.** Drwy'r BELs trawsnewid a deddfwriaeth a gwella a chymorth, rydym hefyd yn parhau i ddarparu ystod o gyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu nifer o raglenni diwygio llywodraeth leol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid ar gyfer trefniadau partneriaeth y gweithlu, ymchwil i gynorthwyo'r gwaith o ddiwygio cyllid llywodraeth leol a threthi lleol, amrywiaeth mewn democratiaeth a gwell atebolrwydd, craffu a thryloywder, a chymorth ar gyfer gwelliant, gwydnwch a thrawsnewid digidol cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

**37.** Mae'r setliad ei hun fel cyllid heb ei neilltuo yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol wneud y dewisiadau lleol sy'n gweithio orau i'w cymunedau lleol o fewn y gyllideb sydd ganddynt. Mae'r cynnydd chwyddiant yn yr elfen cymorth refeniw yn rhoi cynnydd cyson mewn cyllid gyda chyllid sectorau eraill gan y Llywodraeth. Mae'r dull o ymdrin â'r gyllideb ddrafft yn golygu y bydd cynnydd cyson yn gyffredinol mewn grantiau penodol i awdurdodau lleol i gynorthwyo meysydd polisi penodol.

# 9. Gwariant Cyfalaf ar Dai

**38.** Bydd yr adran hon yn cadarnhau sut bydd gwariant cyfalaf ar dai yn 2026-27 yn cael ei ddefnyddio ar draws y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu cartrefi yn nhymor nesaf y Senedd.

**39.** Mae buddsoddi mewn mwy o gartrefi yn rhoi cyfle i deuluoedd ffynnu, gan wella iechyd, llesiant, ansawdd bywyd a chanlyniadau. Mae adeiladu cartrefi newydd yn cyfrannu at economïau lleol, gan greu a chefnogi swyddi, cyfleoedd hyfforddi a chryfhau cadwyni cyflenwi.

**40.** Mae dyraniadau cyllid y BEL Grant Cymorth Tai wedi cynyddu £8.22 miliwn, o £411 miliwn i £419.22 miliwn yn 2026-27. Dyma'r llinell gyllideb allweddol ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Er bod tymor presennol y llywodraeth wedi blaenoriaethu darparu 20,000 o gartrefi carbon isel ar gyfer rhent cymdeithasol, nid yw'r targed ar gyfer y tymor nesaf wedi ei gadarnhau eto.

**41.** Ar hyn o bryd, y Grant Tai Cymdeithasol yw'r brif raglen gyfalaf sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd uchel yng Nghymru gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**42.** Sefydlwyd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar lety dros dro lle mae nifer y bobl ddigartref yn cynyddu oherwydd yr argyfwng costau byw sy'n gwaethygu, yn ogystal â chynlluniau adsefydlu ehangach. Mae'r rhaglen yn darparu cyllid grant i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gyflwyno llety tymor hwy o ansawdd da yn gyflym i gynorthwyo pawb sydd ag anghenion o ran tai.

**43.** Bydd y cyllid a ddyfarnwyd yn 2026-27 yn cael ei ddefnyddio ar draws y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol yn

nhymor nesaf y Senedd.

# 10. Digartrefedd a'r Grant Cymorth Tai

**44.** Bydd yr adran hon yn rhoi dadansoddiad o'r gyllideb ddrafft ar ddigartrefedd, gan gynnwys elfen Grant Cymorth Tai y BEL Cymorth ac Atal Digartrefedd a sut mae hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer y diwygiadau deddfwriaethol sydd ar y gweill.

**45.** Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae'r BEL hon yn ataliol ei natur. Mae methu ag atal digartrefedd yn arwain at oblygiadau ariannol uniongyrchol i awdurdodau lleol, gan gynnwys y costau refeniw sy'n gysylltiedig â'r ffaith fod bron 11,000 o unigolion yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Mae digartrefedd hefyd yn tanseilio llesiant ac yn sbarduno costau ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys mwy o alw ar wasanaethau iechyd, iechyd meddwl a phlismona. Mae'n cael effaith negyddol ar ganlyniadau hirdymor - er enghraifft, mae plant sy'n ddigartref yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu potensial addysgol yn aml.

**46.** Mae'r BEL hon yn cyfrannu'n allweddol at ddiwygio gwasanaethau digartrefedd, gan ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym, sy'n flaenoriaeth yn y Rhaglen Lywodraethu.

**47.** Mae'r BEL hon yn cynorthwyo amrywiaeth o fesurau atal digartrefedd, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r Grant Cymorth Tai, y prif fecanwaith cyllido i alluogi awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae'n cynorthwyo unigolion sydd ag amrywiaeth o anghenion i fyw'n annibynnol a chynnal tenantiaethau, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol. Ar gyfer 2026-27, mae £4.704 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r BEL hon a fydd yn cael ei ddefnyddio i roi hwb i brosiectau presennol sy'n cael eu cyllido o fewn y BEL.

**48.** Mae'r rhan fwyaf o gyllid y Grant Cymorth Tai yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau staffio. Mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol, gyda chyfran sylweddol yn cael eu darparu gan fudiadau trydydd sector. Bydd £4.1 miliwn o gyllid ychwanegol yn mynd

at godiad cyflog 2% yn unol â chwyddiant i staff sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn, gan fynd â chyfanswm cyllideb y Grant Cymorth Tai i £208.4 miliwn yn 2026-27.

**49.** Bydd gweddill y cyllid ychwanegol yn y BEL yn 2026-27 yn cael ei ddefnyddio i ddarparu 2% o gynnydd chwyddiannol ar gyfer prosiectau atal digartrefedd eraill, gan gynnwys prosiectau Arloesi ymhlith Pobl Ifanc, y rhaglen Tai yn Gyntaf a gwasanaethau cynghori.  Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwaith o ddatblygu canllawiau a hyfforddiant newydd i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Bil Digartrefedd a Dyraniadau Tai Cymdeithasol (Cymru) newydd.

**50.** Mae'r RIA ar gyfer y Bil hefyd yn cydnabod y bydd angen gwneud gwaith paratoi ym mhob Awdurdod Lleol cyn ei roi ar waith. Bydd £2.3 miliwn arall yn cael ei ddefnyddio i helpu awdurdodau lleol i dalu costau cyn gweithredu, a fydd yn cael eu dyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw drwy fecanwaith grant penodedig.

**51.** Bydd cyllid BEL hefyd yn parhau i gyllido Cynllun Lesio Cymru yn 2026-27, i "ddatblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref". Mae'r cyllid refeniw hwn yn ategu'r cyllid cyfalaf a ddarperir i'r cynllun fel y nodir yn BEL 1182.

# 11. Blaenoriaethu adnoddau ar gyfer gweithredu Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)

**52.** Bydd yr adran hon yn edrych ar sut bydd y dyraniadau'n cynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Bil Diogelwch Adeiladau a'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) sydd ar y gweill.

**53.** Fel y nodwyd uchod, mae mynd i'r afael â diogelwch adeiladau yn dal yn flaenoriaeth i'r llywodraeth, ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen adfer diogelwch adeiladau. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2025. Elfen bwysig o'r gwaith parhaus yw ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac eraill i ddeall goblygiadau'r ddeddfwriaeth o ran adnoddau a'r gweithlu. Rydym hefyd yn edrych ar yr hyn y gellir ei wneud yn genedlaethol i gynorthwyo'r gwaith gweithredu - er enghraifft, systemau digidol i alluogi'r drefn newydd. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod wythnosau cyntaf 2026 a bydd yn sail ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol.

**54.** Mae'r RIA ar gyfer Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn cydnabod costau trawsnewid awdurdodau lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn eu priod rolau fel awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau diogelwch tân. Mae'r costau trawsnewid hyn yn cynnwys:

- *costau ymgyfarwyddo o £0.05 miliwn ar gyfer awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau diogelwch tân; a*
- *£0.44 miliwn i awdurdodau diogelwch adeiladau i sefydlu cofrestri o adeiladau*

**55.** Mae'r RIA ar gyfer y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn cydnabod y bydd angen gwneud gwaith paratoi ym mhob Awdurdod Lleol cyn ei roi ar waith. Amcangyfrifir mai £2.5 miliwn fydd cyfanswm cost y gweithgarwch hwn yn 2026-27. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i dalu'r gost hon, bydd £2.3 miliwn yn cael ei ddyrannu

drwy'r Grant Cynnal Refeniw drwy fecanwaith grant penodedig. Bydd y £0.2 miliwn sy'n weddill yn cael ei gyllido o dan y BEL Cymorth ac Atal Digartrefedd i gyllido'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant ac arweiniad.

# 12. Diffyg yn y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

**56.** Rydym wedi trosglwyddo'r holl gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i dalu costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol ychwanegol y cyflogwr ar gyfer y sector cyhoeddus yn 2025-26 ac rydym wedi darparu £36 miliwn ychwanegol o gronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch. Gosodwyd y cyllid hwn yn y llinell sylfaen yn 2026-27.

- *Cafodd holl gyflogwyr y sector cyhoeddus tua 85% o'r costau Yswiriant Gwladol uwch.*
- *Rydym yn cydnabod bod hyn yn creu anawsterau i'r sector cyhoeddus, ond ni allwn fforddio talu bil y Deyrnas Unedig yn llawn pan nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi darparu'r cyllid angenrheidiol i wneud hynny.*
- *Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig drin cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yr un fath ledled y Deyrnas Unedig a chyllido'r costau'n llawn.*

**57.** Ar gyfer awdurdodau lleol, mae cyfanswm o £97 miliwn wedi ei bennu yn y llinell sylfaen yn y setliad. Mae hyn wedi cael ei ddosbarthu ar yr un sail â'r cyllid yn 2025-26, ar sail yr asesiadau wedi eu seilio ar ddangosyddion gwasanaeth hynny sy'n gostau staff gan fwyaf. Mae'r diffyg cyllid yn un o'r pwysau a amlygwyd gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac, er gwaethaf y cyllid ychwanegol a ychwanegwyd gan Lywodraeth Cymru at gyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae tua 15% o ddiffyg o hyd. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried hyn fel rhan o'u proses gyffredinol o bennu cyllidebau.

**58.** Ar gyfer cymorth tai, cafodd cyllideb y Grant Cymorth Tai ei chynyddu £21 miliwn (neu 11.5%) yng Nghyllideb Derfynol 2025-26 i gyllido gwasanaethau cymorth. Mae'r cynnydd hefyd yn helpu comisiynwyr awdurdodau lleol i gynorthwyo'r sector i dalu costau uwch, gan gynnwys talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a chynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

**59.** Gan hynny, mae'r gost uwch hon, a gafodd yr effaith fwyaf pan gafodd ei chyflwyno am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2025, wedi cael ei chynnwys yn llinell sylfaen cyllideb Grant Cymorth Tai 2026-27.

# 13. Pwysau Costau Byw a Phrisiau Ynni

**60.** Nid yw'r awdurdodau lleol wedi codi materion sylweddol gyda ni ynghylch cynnydd mewn costau ynni yn eu hadroddiad i'r Is-grŵp Cyllid. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cynnydd cyffredinol mewn chwyddiant yn y grant cynnal refeniw yn y setliad llywodraeth leol. Mae'r buddsoddiad rydym yn ei wneud drwy grant datgarboneiddio llywodraeth leol yn parhau i leihau costau ynni drwy ddefnyddio gwahanol ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae hyn ochr yn ochr â'r buddsoddiad mewn adeiladau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon o gynlluniau penodol fel ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

**61.** Fel yr amlinellwyd uchod, cafodd y Grant Cymorth Tai ei gynyddu £21 miliwn (neu 11.5%) yng Nghyllideb Derfynol 2025-26. Bwriad y cynnydd oedd helpu comisiynwyr awdurdodau lleol i gynorthwyo'r sector i dalu costau uwch, gan gynnwys pwysau chwyddiant a mwy o alw. Mae'r gyllideb uwch wedi cael ei gosod yn llinell sylfaen cyllideb Grant Cymorth Tai 2026-27.

**62.** Gan fod costau ynni yn dal yn ystyfnig o uchel, amcangyfrifir bod 25% o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae ein cynllun Nyth: Cartrefi Clyd yn parhau i ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni am ddim i aelwydydd cymwys, gan gynnwys cymorth brys i bobl heb wres a dŵr poeth. Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni i dai cymdeithasol a gyllidir drwy'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr, cyllid Llenwi'r Bwlch Gwaddoli a'r Rhaglen ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn galluogi tenantiaid i wresogi eu cartrefi'n fforddiadwy.

# 14. Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**63.** Nid oes unrhyw ddyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Thai i gefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac nid oes unrhyw drosglwyddiadau penodol wedi cael eu gwneud i'r Grant Cynnal Refeniw mewn perthynas â'r cymunedau hyn.

**64.** Mae 14 cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n ymwneud â thai, arweinyddiaeth a chyfiawnder troseddol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu hategu gan gyllideb refeniw o £1.2 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwariant arfaethedig ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 26-27, fel rhan o ddyraniad cyllideb ehangach o £1.6 miliwn yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, sy'n cynnwys cymorth wedi ei dargedu i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

**65.** O fewn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol hefyd, mae gan Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr gyllideb cyfalaf o £3.44 miliwn ar gyfer 2026-27, nad yw wedi newid o Gyllideb Derfynol 2025-26 (a ailddatganwyd). Mae'r gyllideb yn cynnwys datblygu safleoedd newydd, estyniadau i safleoedd a phrosiectau adnewyddu mewn safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas â'r cyllidebau hyn.

# 15. Atodiad A

| TAI A LLYWODRAETH LEOL | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYLLIDEB ADNODDAU | | | | | | | |
| Cam Gweithredu | BEL Rhif | Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Derfynol 2025/26 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £000** | Llinell sylfaen ddiwygiedig £000 | Cyllideb Ddrafft 2026/27 £'000 | Newid £,000 |
| **Atal Digartrefedd** | 1120 | Cymorth ac Atal Digartrefedd | 219,147 | 11 | 219,158 | 4,704 | 223,862 |
| | **Cyfanswm Atal Digartrefedd** | | **219,147** | **11** | **219,158** | **4,704** | **223,862** |
| **Byw'n Annibynnol** | 1100 | Polisi Tai | 1,368 | 12 | 1,380 | | 1,380 |
| | 1285 | Ymateb Cyflym i Fyw'n Annibynnol | 6,358 | 0 | 6,358 | | 6,358 |
| | **Cyfanswm Byw'n Annibynnol** | | **7,726** | **12** | **7,738** | **0** | **7,738** |
| **Cartrefi a Lleoedd** | 950 | Cartrefi Clyd | 3,731 | 1 | 3,732 | | 3,732 |
| | **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | | **3,731** | **1** | **3,732** | **0** | **3,732** |
| **Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | 1065 | Datgarboneiddio ac Ansawdd Preswyl | 1,673 | 7 | 1,680 | | 1,680 |
| | **Cyfanswm Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | | **1,673** | **7** | **1,680** | **0** | **1,680** |
| **Diogelwch Adeiladau** | 2255 | Diogelwch Adeiladau | 4,500 | 43 | 4,543 | | 4,543 |
| | **Cyfanswm Diogelwch Adeiladau** | | **4,500** | **43** | **4,543** | **0** | **4,543** |
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | 984 | Grant Cyllid Tai | 5,285 | 2 | 5,287 | | 5,287 |
| | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | | **5,285** | **2** | **5,287** | **0** | **5,287** |
| **Cyllid Refeniw Tai** | 1181 | Cyllid Refeniw y Rhaglen Tai | 1,100 | 22 | 1,122 | | 1,122 |
| | **Cyfanswm Cyllid Refeniw Tai** | | **1,100** | **22** | **1,122** | **0** | **1,122** |
| **Yr Is-adran Tir** | 6410 | Cronfa Rhyddhau Tir | (1,550) | 10 | (1,540) | | (1,540) |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm yr Is-adran Tir** | | **(1,550)** | **10** | **(1,540)** | **0** | **(1,540)** |
| **Adfywio** | 4151 | Adfywio | (13,329) | 8 | (13,321) | | (13,321) |
| | 4162 | Awdurdod Harbwr Caerdydd | 5,400 | 0 | 5,400 | | 5,400 |
| | **Cyfanswm Adfywio** | | **(7,929)** | **8** | **(7,921)** | **0** | **(7,921)** |
| **Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol** | 840 | Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | 5,008,134 | 133,990 | 5,142,124 | 125,620 | 5,267,744 |
| | 875 | Rhyddhad ar Ardrethi Annomestig | 77,730 | (59,295) | 18,435 | 369 | 18,804 |
| | 860 | Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu | 112331 | 0 | 112331 | | 112331 |
| | 885 | Canlyniadau Refeniw Mentrau Cyllid Preifat Llywodraeth Leol | 2,411 | 0 | 2,411 | (311) | 2,100 |
| | 887 | Trawsnewid a Deddfwriaeth | 6032 | 40 | 6072 | 121 | 6193 |
| | 940 | Costau Casglu Ardrethi Annomestig | 5172 | 0 | 5172 | | 5172 |
| | 1600 | Cymorth Ariannol Brys | 1 | 0 | 1 | | 1 |
| | **Cyfanswm y Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol** | | **5,211,811** | **74,735** | **5,286,546** | **125,799** | **5,412,345** |
| **Gwasanaethau Prisio** | 1500 | Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio | 17000 | 0 | 17000 | 340 | 17340 |
| | 1540 | Tribiwnlys Prisio Cymru | 1,925 | 24 | 1,949 | 39 | 1,988 |
| | 1550 | Diwygio Trethiant Lleol | 4,800 | 0 | 4,800 | 96 | 4,896 |
| | **Cyfanswm Gwasanaethau Prisio** | | **23,725** | **24** | **23,749** | **475** | **24,224** |
| **Adeiladu Democratiaeth Leol** | 1440 | Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru | 1,507 | 229 | 1,736 | 37 | 1,773 |
| | 1462 | Gwariant i Hyrwyddo Democratiaeth Leol | 66 | 0 | 66 | 1 | 67 |
| | 1463 | Polisi Etholiadau | 3400 | 0 | 3400 | 68 | 3468 |
| | **Cyfanswm Adeiladu Democratiaeth Leol** | | **4,973** | **229** | **5,202** | **106** | **5,308** |
| **Gwella Llywodraeth Leol** | 1571 | Gwella a Chefnogi | 2791 | 0 | 2791 | 56 | 2847 |
| | **Cyfanswm Gwella Llywodraeth Leol** | | **2,791** | **0** | **2,791** | **56** | **2,847** |
| **Academi Wales** | 7093 | Academi Wales | 1269 | 17 | 1286 | 71 | 1357 |
| | **Cyfanswm Academi Wales** | | **1,269** | **17** | **1,286** | **71** | **1,357** |
| **Cefnogi Cydweithredu a Diwygio** | 1574 | Cynghorau Cymuned a Thref | 144 | 0 | 144 | 3 | 147 |
| | **Cyfanswm Cefnogi Cydweithredu a Diwygio** | | **144** | **0** | **144** | **3** | **147** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwydnwch** | 1265 | Y Gwasanaeth Tân ac Achub | 2,646 | 278 | 2,924 | 195 | 3,119 |
| | 1697 | Y Gwasanaeth Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | 1,275 | 0 | 1,275 | 26 | 1,301 |
| | 1698 | Diogelwch Tân Cymunedol | 371 | 0 | 371 | 7 | 378 |
| | | **Cyfanswm Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwydnwch** | **4,292** | **278** | **4,570** | **228** | **4,798** |
| **Ystadau Cymru** | 1576 | Ystadau Cymru | 500 | 0 | 500 | | 500 |
| | | **Cyfanswm Ystadau Cymru** | **500** | **0** | **500** | **0** | **500** |
| **TAI A LLYWODRAETH LEOL - CYFANSWM CYLLIDEB ADNODDAU** | | | **5,483,188** | **75,399** | **5,558,587** | **131,442** | **5,690,029** |

| **CYLLIDEB CYFALAF** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **BEL Rhif** | **Disgrifiad o'r BEL** | **Cyllideb Derfynol 2025/26 £'000** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £000**** | **Llinell sylfaen ddiwygiedig £000** | **Cyllideb Ddrafft 2026/27 £'000** | **Newid £,000** |
| **Byw'n Annibynnol** | 1285 | Rhaglen Addasiadau Brys | 25,000 | | 25,000 | 500 | 25,500 |
| | 1182 | Y Sector Rhentu Preifat | 3,500 | | 3,500 | 70 | 3,570 |
| | | **Cyfanswm Byw'n Annibynnol** | **28,500** | **0** | **28,500** | **570** | **29,070** |
| **Cartrefi a Lleoedd** | 986 | Iechyd a Thai | 60,500 | | 60,500 | 1,210 | 61,710 |
| | 950 | Cartrefi Clyd | 37,500 | | 37,500 | 750 | 38,250 |
| | | **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | **98,000** | **0** | **98,000** | **1,960** | **99,960** |
| **Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | 1061 | Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli | 108,000 | | 108,000 | 2,160 | 110,160 |
| | 1065 | Datgarboneiddio ac Ansawdd Preswyl | 95,000 | (3,000) | 92,000 | 4,900 | 96,900 |
| | | **Cyfanswm Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | **203,000** | **(3,000)** | **200,000** | **7,060** | **207,060** |
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | 982 | Grantiau Tai Cymdeithasol | 437,250 | (26,250) | 411,000 | 34,995 | 445,995 |
| | 989 | Tir ar gyfer Tai - Ad-daliad | (1,000) | 1,000 | 0 | | 0 |
| | | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | **436,250** | **(25,250)** | **411,000** | **34,995** | **445,995** |
| **Diogelwch Adeiladau** | 2255 | Diogelwch Adeiladau | 127,670 | | 127,670 | 2,554 | 130,224 |
| | | **Cyfanswm Diogelwch Adeiladau** | **127,670** | **0** | **127,670** | **2,554** | **130,224** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad** | 987 | Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill | 82,000 | (57,000) | 25,000 | 58,640 | 83,640 |
| | 987 | Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill - Ad-daliadau | (3,260) | 3,260 | 0 | (5,467) | (5,467) |
| | 980 | Cymorth Prynu | 4,000 | | 4,000 | 80 | 4,080 |
| | | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | **82,740** | **(53,740)** | **29,000** | **53,253** | **82,253** |
| **Yr Is-adran Tir** | 6410 | Cronfa Rhyddhau Tir | 25,000 | | 25,000 | 500 | 25,500 |
| | 6410 | Cronfa Rhyddhau Tir - Ad-daliadau | (9,128) | 9,128 | 0 | | 0 |
| | | **Cyfanswm yr Is-adran Tir** | **15,872** | **9,128** | **25,000** | **500** | **25,500** |
| **Adfywio** | 4151 | Adfywio | 40,000 | | 40,000 | 800 | 40,800 |
| | | **Cyfanswm Adfywio** | **40,000** | **0** | **40,000** | **800** | **40,800** |
| **Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol** | 1675 | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | 235,000 | (5,000) | 230,000 | 4,600 | 234,600 |
| | | **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol** | **235,000** | **(5,000)** | **230,000** | **4,600** | **234,600** |
| **Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwydnwch** | 1265 | Gwasanaethau Tân ac Achub | 900 | | 900 | 120 | 1,020 |
| | 1697 | Y Gwasanaeth Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | 210 | | 210 | 4 | 214 |
| | 1698 | Diogelwch Tân Cymunedol | 1,000 | | 1,000 | (82) | 918 |
| | | **Cyfanswm Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwydnwch** | **2,110** | **0** | **2,110** | **42** | **2,152** |
| **TAI A LLYWODRAETH LEOL - CYFANSWM CYLLIDEB CYFALAF** | | | **1,269,142** | **(77,862)** | **1,191,280** | **106,334** | **1,297,614** |

| **CYLLIDEB ADNODDAU - AME** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **BEL Rhif** | **Disgrifiad o'r BEL** | **Cyllideb Derfynol 2025/26 £'000** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £000**** | **Llinell sylfaen ddiwygiedig £000** | **Cyllideb Ddrafft 2026/27 £'000** | **Newid £,000** |
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad** | 981 | Tai'r Farchnad – AME | (575) | | (575) | 591 | 16 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | **(575)** | **0** | **(575)** | **591** | **16** |
| **Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol** | 870 | Swm Dosbarthadwy Ardrethi Annomestig - AME | 1,078,000 | | 1,078,000 | 100,000 | 1,178,000 |
| | 865 | Darpariaeth ar gyfer Drwgddyledion - AME | 227 | | 227 | 0 | 227 |
| | | **Cyfanswm y Cymorth Ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol** | **1,078,227** | **0** | **1,078,227** | **100,000** | **1,178,227** |
| **Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwydnwch** | 1699 | Pensiynau'r Gwasanaeth Tân - AME | 37,151 | | 37,151 | (1,510) | 35,641 |
| | | **Cyfanswm Gwasanaethau Tân ac Achub a Gwydnwch** | **37,151** | **0** | **37,151** | **(1,510)** | **35,641** |
| **TAI A LLYWODRAETH LEOL - CYFANSWM CYLLIDEB ADNODDAU AME** | | | **1,114,803** | **0** | **1,114,803** | **99,081** | **1,213,884** |